



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Cynllun Datblygu Lleol Merthyr Tudful 2006 – 2021



Adroddiad Adolygu Ebrill 2016



Miss J Jones
Pennaeth yr Adran
Gynllunio a Chefn Gwlad
Cyngor Bwrdeistref Sirol
Merthyr Tudful
Uned 5
Parc Busnes Triogl
Rentr ebach
Merthyr Tudful
CF48 4TQ



Cynnwys

Adran	Tudalen
1.0 Cyflwyniad	2
2.0 Canfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol	4
3.0 Gweledigaeth	5
4.0 Y Prif Amcan a'r Nodau Strategol	7
5.0 Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol	8
6.0 Polisiâu'r Cynllun Datblygu Lleol	16
7.0 Gwerthusiad Cynladwyedd	25
8.0 Cynlluniau ar y cyd	27
9.0 Casgliad	29
Atodiad 1: Adroddiad Monitro Blynyddol – Crynodeb Perfformiad	30
Atodiad 2: Datblygiadau dan y Cynllun Datblygu Lleol	44
Atodiad 3: Adolygu Effeithiolrwydd Polisi'r CDLI	48

1.0 Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) sydd wedi ei fabwysiadu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn gosod allan blaenoriaethau'r Cyngor o ran datblygu a defnyddio tir yn y Fwrdeistref Sirol, a'i bolisiau o ran gweithredu'r blaenoriaethau hyn yn ystod y pymtheg mlynedd rhwng 2006 a 2021. Cafodd y CDLI ei fabwysiadu ar y 25^{ain} o Fai 2011 ac yn unol â gofynion statudol, mae wedi ei fonitro bob blwyddyn ar ffurf Adroddiad Monitro Blyneddol. Mae pedwar o'r Adroddiadau hyn wedi eu cyhoeddi hyd yma. Mae'r adroddiadau hyn yn asesu i ba raddau mae strategaethau, polisiau a safleoedd datblygu'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu gweithredu.
- 1.2 Mae Cynlluniau Datblygu Lleol cyfoes yn rhan hanfodol o system gynllunio sy'n seiliedig ar gynllunio ymlaen llaw. Er mwyn sicrhau fod asesiadau rheolaidd a chynhwysfawr i weld pa mor gyfoes yw cynllun, mae angen i'r Cyngor adolygu ei GDLI yn llawn o leiaf bob pedair blynedd o ddyddiad mabwysiadu'r cynllun. Gyda hynny mewn golwg, fe ddechreuwyd adolygu'r CDLI yn llawn ar y 25^{ain} o Fai a'r canlyniad yw'r Adroddiad Adolygu hwn sy'n amlinellu'r newidiadau sydd angen eu gwneud i'r CDLI a'r trefniadau adolygu mae angen eu dilyn. Mae'r newidiadau sy'n cael eu hargymell yn seiliedig ar ganlyniadau Adroddiadau Adolygu blaenorol, diweddariadau i'r dystiolaeth ac arolygon sydd ar y gweill ¹.
- 1.3 Mae Adran 2 yn rhoi trosolwg byr o'r AMB diweddaraf (a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2015) ac yn tynnu sylw at yr agweddau hynny o'r Cynllun nad ydyn nhw'n gweithio neu lle nad oes cynnydd tuag at y nodau penodedig.
- 1.4 Mae Adran 3 yn adolygu gweledigaeth y CDLI yng nghyd-destun ei berthynas gyda Chynllun Integredig Unigol y Cyngor. Gwneir cymhariaeth hefyd gyda'r amcanion lles sy'n codi o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Yn y ddwy achos fe ddeuir i gasgliad a ddylid adolygu Gweledigaeth y CDLI fel bod polisiau'n cael eu cyfuno'n well.
- 1.5 Mae Adran 4 yn adolygu Prif Amcan a Nodau Strategol y CDLI. Caiff y prif nod ei ystyried yn erbyn yr ystadegau poblogaeth diweddaraf fel y'i paratwir nhw gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol. Rhoddir sylw hefyd i flaenoriaethau'r Cynllun Integredig Sengl ac i'r targedau lles. Caiff y Nodau Strategol eu hasesu dim ond yn erbyn blaenoriaethau deilliannol y CIS a'r targedau lles.

¹ Mae a wnelo arolygon ar y gweill â'r ddyletswydd statudol sydd ar y Cyngor o dan Adran 61 o Ddeddf Prynu Gorfodol 2004, sy'n rhoi rheidrwydd ar y Cyngor i gadw dan ystyriaeth unrhyw faterion sy'n effeithio ar ddatblygu yn yr ardal.

Caiff argymhellion eu gwneud o ran sut i ddiwygio'r Prif Amcan a'r Nodau Strategol.

- 1.6 Mae Adran 5 yn adolygu Strategaeth y CDLI ac yn canolbwyntio ar dair cydran bwysig sef poblogaeth, tai a gwaith. Ystyrir pob cydran yn unigol, a rhoddir ystyriaeth hefyd i p'un ai a yw'r Strategaeth yn cael ei gweithredu, a rhesymau dros y sefyllfa sydd ohoni. Rhoddir barn hefyd pa un ai a ddylid ymestyn y strategaeth bresennol i 2031 (diwedd cyfnod o 15 mlynedd sy'n dechrau yn 2016) neu a ddylid ailystyried y strategaeth.
- 1.7 Yn Adran 6 mae adolygiad cyffredinol o bolisiâu'r CDLI yn seiliedig ar ganfyddiadau AMB blaenorol a thystiolaeth o unrhyw newid sylweddol yn y cyd-destun². Caiff y polisiâu perthnasol eu hystyried yn unol â'u penawdau ac argymhellir newidiadau os yw hynny'n berthnasol.
- 1.8 Mae Adran 7 yn rhoi trosolwg o'r gwaith o fonitro'r nodau cynaliadwyedd ac yn tynnu sylw at y newidiadau yn y sylfaen, cynlluniau, polisiâu a chynlluniau amgylcheddol ers gwneud y gwaith yn 2006.
- 1.9 Mae Adran 8 yn mynd i'r afael â pharatoi cynllun ar y cyd gyda'r awdurdodau ffiniol. Caiff hyn ei wneud yng nghyd-destun yr hyn yr hoffai Llywodraeth Cymru ei weld yn digwydd o ran ad-drefnu llywodraeth leol yn y dyfodol, sef bod CBS Merthyr Tudful yn uno efo Rhondda Cynon Taf a Phen y Bont ar Ogwr.
- 1.10 Mae Adran 9 yn crynhoi canlyniadau'r adrannau blaenorol ac yn awgrymu trefn adolygu i'w dilyn wrth baratoi CDLI newydd.

² Sylwch nad yw polisiâu ttai a chyflogaeth wedi eu cynnwys yn yr adran hon oherwydd fe gawson nhw eu hadolygu fel rhan o'r Strategaeth yn Adran 5.

2.0 Canfyddiadau'r Adolygiadau Monitro Blynyddol

- 2.1 Mae'r canllawiau cenedlaethol sydd wedi eu gosod allan yn Llawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol (Argraffiad 2, Awst 2015) yn datgan y dylai adolygiad cynllun, ymysg pethau eraill, roi sylw i ganfyddiadau AMB sydd eisoes wedi eu cyhoeddi. Cafodd yr AMB diweddaraf ei gyhoeddi ym mis Hydref 2015 ac mae'n berthnasol i'r cyfnod rhwng y 1^{af} o Ebrill 2014 a'r 31^{ain} o Fawrth 2015. Mae Atodiad 1 yn crynhoi'r hyn a gyflawnwyd o dan y Cynllun.
- 2.2 Er bod sawl maes allweddol o'r Cynllun wedi eu gweithredu'n llwyddiannus, dyw rhai agweddau penodol o'r Cynllun ddim yn gweithio neu dyw'r cynnydd ddim yn unol â'r nodau a osodwyd. Mae'r AMB diweddaraf yn codi pryderon ynglŷn â'r meysydd canlynol:
- Tir wedi ei ddarparu i godi tai
 - Nifer y tai wedi eu codi yn y Brif Ardal Dwf
 - Nifer y tai sy'n cael eu codi, yn arbennig rhai i'w rhoi ar y farchnad gyffredin.
 - Faint o ofod cyflogaeth sydd wedi ei adeiladu yn y Brif Ardal Dwf;
 - Darpariaeth gofod cyflogaeth B1
 - Canran y tir wedi ei glustnodi i'r CDLI;
 - Canran y gwaith datblygu a ganiateir ar safleoedd dynodedig; a
 - Siopau gwag yng nghanol tref Merthyr Tudful. .
- 2.3 Oni bai am siopau gwag, mae'r holl ddangosyddion uchod yn awgrymu nad yw'r safleoedd sydd wedi eu clustnodi yn y CDLI yn cael eu datblygu fel y disgwyl. Nid yw *Strategaeth Twf Pellach* y cynllun yn cael ei gweithredu ar hyn o bryd chwaith. Nid yw gofynion y strategaeth yn cael eu cyflawni, a ffactorau pwysig sy'n cyfrannu at hyn ydy'r lefel is na'r disgwyl o dai a swyddi. Mae goblygiadau parhau â'r Strategaeth yn cael ystyriaeth fanylach yn Adran 5 isod. Mae Atodiad 2 hefyd yn rhoi trosolwg o sut mae'r holl safleoedd dynodedig yn cael eu datblygu ers dechrau cyfnod y cynllun.
- 2.4 Mae cyfradd y siopau gweigion yng nghanol tref Merthyr Tudful yn arwydd o'r cyd-destun ehangach ac yn rhoi syniad o ba mor 'iach' ydy canol y dref. Ers mabwysiadu'r cynllun mae'r dangosydd hwn wedi methu â chyrraedd y targed bob blwyddyn oni bai am un. O'r herwydd, mae cyfeirio cyson ato yn yr AMB fel agwedd o'r cynllun nad yw'n gweithio. Cydnabyddir mai'r sefyllfa economaidd yw'r prif achos dros fethu â gwella'r gyfradd siopau gwag. Eto, fe allai edrych yn ehangach ar strategaeth canol y dref helpu i wella hyfywedd canol y dref.

3.0 Gweledigaeth

- 3.1 Mae gweledigaeth y CDLI yn rhoi darlun clir iawn o sut le ddylai'r Sir fod yn y dyfodol. Mae'n hanfodol bwysig fod hyn yn aros yn berthnasol i anghenion a dyheadau lleol y tu hwnt i gyfnod y cynllun presenol (2006 tan 2012). Cafodd gweledigaeth y CDLI ei datblygu ar y cyd ac roedd yn ymateb i sawl cynllun a strategaeth wahanol, gan gynnwys Cynllun Cymunedol y Cyngor oedd yn bodoli ar y pryd. Mae'r weledigaeth yn nodi:

“Rhwyng 2006 a 2021, bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn sicrhau y caiff tir ym Merthyr Tudful ei ddefnyddio a'i ddatblygu'n sensitif wedi ystyried popeth ac yn seiliedig ar gynaliadwyedd. Fel hyn, dyhead y cynllun ydy adlewyrchu disgwyliadau'r gymuned:-

- ***hwyluso twf parhaus;***
- ***hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol***
- ***gwarchod yr amgylchedd; a***
- ***rhoi ansawdd bywyd rhagorol i bawb”***

- 3.2 Mae'r berthynas rhwng y CDLI a'r Cynllun Integredig Sengl yn arbennig o bwysig gan mai'r Cynllun Integredig sy'n darparu'r fframwaith polisi strategol cyffredinol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol. Mae canllawiau cenedlaethol yn dweud y dylai Cynlluniau Datblygu Lleol ategu Cynlluniau Integredig Sengl drwy fynegi'r weledigaeth ar y cyd o sut bydd ardal yn newid.³

- 3.3 Mae'r Cynllun Integredig Sengl sydd gan Ferthyr Tudful ar hyn o bryd (diwygiwyd a chymeradwywyd gan y Bwrdd Gwasanaeth Lleol ar y 1^{af} o Hydref 2015) yn cynnwys y weledigaeth ganlynol:

“Cryfhau sefyllfa Merthyr Tudful fel canolfan ranbarthol Blaenau'r Cymoedd ac i fod yn lle i ymfalchïo ynddo, lle mae:

- ***Pobl yn dysgu a datblygu sgiliau i wireddu eu dyheadau;***
- ***Pobl yn byw a gweithio ac yn mwynhau bywydau diogel, iach a chyflawn; a***
- ***Lle mae pobl yn ymweld, yn mwynhau ac yn dychwelyd.”***

- 3.4 Yn ategu'r weledigaeth mae'r egwyddor sylfaenol ***“Dysgu am oes”*** a'r pedwar deilliant canlynol sydd i gyd yn flaenoriaethau:

³ Paragraff 5.2.3.1 o Lawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol, Cyhoeddiad 2 (Awst 2015).

- ***Bod cyfle ac uchelgais gan bobl Merthyr Tudful i ddysgu a datblygu sgiliau a bod ar eu gorau.***
- ***Bod pobl Merthyr Tudful yn elwa o economi gref, gynladwy, ac amrywiol***
- ***Bod pobl sy'n byw a gweithio ym Merthyr Tudful yn cael cefnogaeth i fyw bywydau iachach a gwell.***
- ***Bod pobl yn mwynhau byw, gweithio, chwarae ac ymweld ag ardal sy'n fyrlymus, deniadol, diogel a chynladwy."***

- 3.5 Tra bod gweledigaeth y CDLI a'r CIS yn weddol gydnaws, dylid adolygu gweledigaeth y CDLI fel ei fod yn agosach at weledigaeth y CIS, yn enwedig o ran y pwyslais ar sicrhau fod pobl yn iach, yn fedrus, ac yn medru dysgu ar unrhyw adeg yn eu bywydau. O ran iechyd, dylai'r CDLI diwygiedig annog ffordd o fyw iachach drwy warchod a datblygu cyfleusterau hamdden ac adloniant sy'n hwylus i'w defnyddio. Dylid hefyd datblygu'r rhwydweithiau teithio corfforol sy'n annog cerdded a seiclo. At hyn, bydd angen gwarchod a darparu tir digonol i ddatblygu neu ehangu cyfleusterau iechyd.
- 3.6 O ran sgiliau a dysgu gydol oes, bydd angen i'r CDLI diwygiedig gydnabod pwysigrwydd cyfleusterau addysg modern a'u swyddogaeth yn uwch-sgilio'r trigolion. Bydd angen felly gwarchod y cyfleusterau sydd eisoes yn bodoli a sicrhau bod digon o dir ar gael i ddarparu cyfleusterau addysgol newydd neu i ehangu'r rhai sy'n bodoli'n barod.
- 3.7 Dylid sylwi y caiff y CIS ei ddisodli'n fuan gan Gynllun Lles Lleol sy'n un o ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, i ddatblygu mewn modd cynladwy ac i osod nodau sy'n golygu eu bod yn gwneud cymaint â phosib i gyflawni pob un o'r 7 amcan lles. Rhaid i bob corff cyhoeddus gymryd camau rhesymol wrth wneud eu gwaith i gwrdd â'r amcanion hynny. Mae'r Ddeddf hefyd yn sefydlu Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal drwy weithio i gyflawni'r amcanion lles. Mae'r Byrddau Gwasanaeth Lleol yn gyfrifol am baratoi a chyhoeddi Cynllun Lles Lleol sy'n amlinellu eu hamcanion a sut cyflawnir nhw.
- 3.8 Er nad yw Cynllun Lles Lleol y Fwrdeistref Sirol ond wedi megis dechrau datblygu, ystyrir bod budd gwneud asesiad byr o ran a yw gweledigaeth y CDLI yn cyfrannu at wireddu'r amcanion lles. Fe gafwyd fod y Weledigaeth yn asio'n bur dda gyda'r amcanion lles, ond bod modd gwneud mwy i gyflawni dau o'r amcanion lles, sef "Cymru iachach" a "Cymru sy'n gyfrifol am y byd."

4.0 Prif Amcan a Nodau Strategol

Prif Amcan

- 4.1 Prif amcan y CDLI yw ***“helpu i leihau y niferoedd sy’n allfudo o’r Fwrdeistref Sirol fel bod lefelau poblogaeth yn sefydlogi erbyn 2011 a bod 10 mlynedd o dwf ar ôl hyn.”***
- 4.2 Cafwyd fod yr amcaniadau poblogaeth⁴ oedd yn sail i ffurfio’r Prif Amcan yn anghywir wrth edrych ar Gyfrifiad 2011 ac amcaniadau poblogaeth canol blwyddyn diwygiedig gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol. Amcangyfrifir fod poblogaeth y Fwrdeistref Sirol wedi sefydlogi mor gynnar â 2003 a bod Targed y cynllun o gynyddu’r boblogaeth i 59,000 eisoes wedi ei gyrraedd. O ganlyniad, mae Prif Amcan y CDLI wedi ei gyflawni ac mae angen diweddarau’r cynllun i adlewyrchu newidiadau yn yr amcaniadau poblogaeth. Mae dadansoddiad manylach o boblogaeth y Fwrdeistref Sirol i’w gael yn Adran 5 isod.
- 4.3 Mae Prif Amcan y CDLI wedi ei asesu hefyd yn erbyn deilliannau blaenoriaethol y CIS a’r amcanion lles. Fe gafwyd yn arbennig ei fod yn cyfrannu tuag at gyflawni dau o’r amcanion lles, sef *“Cymru ffyniannus”* a *“Cymru o Gymunedau Cydlynus”*. Dylid felly ystyried sut y gellid cyflawni amcanion blaenoriaethol y CIS a’r amcanion lles yn well drwy ddiwygio’r prif amcan.

Nodau Strategol

- 4.4 Mae’r 12 nod strategol yn y CDLI sy’n ymwneud â materion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Mae’r nodau presennol yn dal yn berthnasol a chyda’i gilydd yn cyfrannu tuag at gwrdd â’r rhan fwyaf o ddeilliannau blaenoriaethol y CIS a’r amcanion lles. Bydd angen peth diwygio serch hynny i sicrhau fod yr amcanion yn fwy penodol ac yn rhoi sylw i flaenoriaethau lleol allweddol sy’n adlewyrchu deilliannau blaenoriaethol y CIS a’r amcanion lles. Yn benodol, bydd angen i amcan strategol diwygiedig roi sylw cliriach i’r dyhead dysgu gydol oes ac i ddatblygu sgiliau. Bydd angen adolygu Amcan Strategol 12 sy’n berthnasol i leihau effaith amgylcheddol i adlewyrchu’r newid mawr a fu yn y cyd-destun ac i gyfrannu’n llawnach at wireddu’r amcanion lles. Yn hyn o beth bydd angen symud tuag at gymdeithas arloesol, gynhyrchol a charbon isel sy’n cydnabod cyfyngiadau’r byd a’r amgylchedd ac sy’n defnyddio adnoddau’n effeithlon.

⁴ Paratowyd amcanion poblogaeth yn 2007 gan ddefnyddio Rhagolygon Canol Blwyddyn Y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol a Model Tai a Phoblogaeth Chelmer

5.0 Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol

Poblogaeth

- 5.1 Mae'r CDLI mabwysiedig yn seiliedig ar *Strategaeth Twf Pellach* sy'n gobeithio helpu lleihau'r lefel presennol o allfudo fel bod lefelau poblogaeth yn sefydlogi erbyn 2011 a bod 10 mlynedd o dwf yn dilyn hynny. Mae'r *Strategaeth Twf Pellach* yn gosod cyfradd fewnfudo o 0.85% bob blwyddyn sy'n golygu cynnydd o 4,400 yn y boblogaeth. Ar adeg paratoi'r rhagamcanion twf cynyddol yn 2007, amcangyfrifwyd fod poblogaeth Merthyr Tudful yn 54,600, ac y byddai'r boblogaeth yn cynyddu i 59,000 erbyn 2021. Roedd hyn yn cyferbynnu gyda'r rhagolygon ar y pryd ⁵ oedd yn seiliedig ar duedd hanesyddol ac yn dangos fod Merthyr Tudful yn colli 300 o bobl bob blwyddyn oherwydd allfudo. Golyga hyn y byddai'r boblogaeth yn lleihau o 54,600 yn 2006 i 50,200 erbyn 2021.
- 5.2 Dangosodd Cyfrifiad 2011 fod poblogaeth Merthyr Tudful mewn gwirionedd yn fwy na rhagolygon blaenorol y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol, gyda phoblogaeth o 58,851 yn 2011. Mae'r amcaniadau poblogaeth canol blwyddyn diwygiedig⁶ sy'n seiliedig ar gyfrifiad 2011 hefyd yn dangos fod poblogaeth Merthyr Tudful mewn gwirionedd ddwy fil yn uwch yn 2006 (56,627) na'r hyn oedd wedi ei ragweld yn flaenorol, ac y bu'r boblogaeth yn wir yn cynyddu ers 2003. At hyn, yn ôl amcanion poblogaeth canol blwyddyn diweddaraf 2014⁷, cyrhaeddwyd y targed o gynyddu'r boblogaeth i 59,000 yn 2013.
- 5.3 Mae gwahaniaethau sylweddol rhwng yr amcanion poblogaeth presennol gaiff eu cyhoeddi gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol a'r rheini y mae strategaeth y CDLI yn seiliedig arnyn nhw. Mae'n amlwg bod angen ailystyried lefel twf poblogaeth y CDLI. Mae angen ystyried hefyd goblygiadau symud dyddiad y CDLI i 2031, yn arbennig yng ngoleuni amcanion poblogaeth Llywodraeth Cymru⁸ sy'n dangos y bydd poblogaeth Merthyr Tudful yn 62,316 yn 2031.

Tai

- 5.4 Mae'r twf poblogaeth mae'r CDLI mabwysiedig yn cynllunio ar ei gyfer yn hanfodol wrth benderfynu faint o dai i'w codi dros gyfnod y Cynllun. Bwriedir


⁵ Paratowyd hefyd yn 2007 yn seiliedig ar amcanion poblogaeth canol blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol.

⁶ Cyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol ar y 30^{ain} o Ebrill 2013.

⁷ Cyhoeddwyd gan Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol ar y 25^{ain} o Fehefin 2015.

⁸ Cymerwyd o wefan StatsCymru ar yr 16^{eg} o Fawrth 2016.

codi 3,800 o dai⁹ fel rhan o Strategaeth y CDLI er mwyn cwrdd â'r cynnydd mewn poblogaeth. Mae hyn yn cyfateb i godi 253 tŷ bob blwyddyn, sy'n lefel uchelgeisiol o dwf o'i gymharu â faint o dai gai eu codi yn y sir cyn dechrau cyfnod y cynllun yn 2006 (Gweler Graff 1 isod).



Graff 1: Nifer y tai wedi eu codi rhwng 2001 a 2015

- 5.5 Ar y 31^{ain} o Fawrth 2015, roedd 1,536 o'r 3,800 tŷ disgwyliedig sy'n ofynnol o dan y strategaeth wedi eu hadeiladu. Tra bod hyn yn nifer sylweddol o dai, mae'n is na'r lefel sydd ei angen i gwrdd â gofynion y Strategaeth. Mae hyn i'w weld o Graff 1 uchod, sy'n dangos na lwyddwyd i gwrdd â'r gofyn o godi 252 tŷ bob blwyddyn yn unrhyw flwyddyn hyd yma ers dechrau'r cynllun.
- 5.6 Codwyd y lefel mwyaf o dai yn 2008 gyda 243 yn cael eu hadeiladu. Roedd y ffigwr yma fymryn yn is na'r targed ac yn adlewyrchu'r gwaith oedd yn mynd rhagddo gan bedwar cwmni adeiladu cenedlaethol i ddatblygu nifer o safleoedd mawrion. Roedd hyn yn ystod cyfnod o gynnydd economaidd. Codwyd nifer sylweddol o dai rhwng 2009 a 2011 hefyd wrth i waith fynd rhagddo ar y safleoedd hyn.
- 5.7 Does dim dwywaith fod y cynni economaidd wedi cael effaith fawr ar faint o dai sydd wedi eu codi dros y blynyddoedd diwethaf. Oherwydd y wasgfa hon ar y diwydiant tai bu datblygwyr tai yn tueddu i ganolbwyntio ar y cyfleoedd mwy yn ardaloedd fel Caerdydd a choridor yr M4. Bu effaith hyn yn fawr iawn

⁹ Mae'r CDLI mewn gwirionedd yn dynodi 3,964 tŷ i roi gradd o hyblygrwydd er mwyn gallu cwrdd da'r lefel gydnabyddedig o dwf.


gyda chodi dim ond 94 tŷ yn 2012. Ar hyn o bryd dim ond dau gwmni adeiladu tai cenedlaethol sy'n gweithio yn y sir; Taylor Wimpey yn Cwrt Aneurin Bevan a Redrow yn Manor View. Tra bod yna dystiolaeth gyffredinol fod tai yn gwerthu'n dda fel rhan o'r cynlluniau hyn, mae ansicrwydd ynglŷn â phryd fydd y gyfradd godi tai yn codi i'r hyn yr oedd yn 2008, ac a fyddai modd cynnal y lefel honno o ddarpariaeth dros gyfnod o amser. Ystyrir fod angen cyfnod o dwf cryf a chyson yn economi a marchnad dai y Deyrnas Gyfunol er mwyn i hyn ddigwydd.

- 5.8 Mae sawl ffactor, cadarnhaol a negyddol, allai ddylanwadu o bosib at gynyddu faint o dai gaiff eu codi yn y Fwrdeistref. O ran y ffactorau cadarnhaol, mae arian cyhoeddus drwy gynllun adfywio Lleoedd Bywiog a Hyfyw Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i ysgogi datblygiad gan y sector breifat ar safleoedd tai. Yn y tymor canolig a mwy hir dymor, bydd y Metro hefyd yn datblygu isadeiledd drafnidiaeth newydd fydd yn gwella'r cyswllt rhwng Merthyr Tudful a Chaerdydd drwy gyfrwng Cynllun Rhanbarth Dinas Caerdydd. Mae £1.2 ar gael fel rhan o'r cynllun hwn i ddarparu isadeiledd newydd a buddsoddiad penodol i helpu rhyddhau potensial twf y rhanbarth dros yr ugain mlynedd nesaf.
- 5.9 O ran agweddau negyddol, byddai rhyddhau nifer fawr o safleoedd tai mewn ardaloedd mwy atyniadol yn rhanbarth De Ddwyrain Cymru o bosib yn denu cwmnïau adeiladu tai cenedlaethol o'r Fwrdeistref Sirol. O ran y farchnad dai ehangach, dydy Merthyr Tudful ddim yn brif leoliad datblygu gyda datblygwyr tai yn ffafrio ardaloedd fel Caerdydd a choridor yr M4 lle mae modd gwneud elw mwy. Mae llawer o dir wedi ei ryddhau yn ddiweddar i godi tai. Mae CDLI mabwysiedig Caerdydd yn gofyn am 41,415 o dai, ac mae CDLI ymgynghorol Caerffili yn clustnodi 12,400. Mae dyraniad tai y ddau gynllun yn cynnwys ehangu trefol ar safleoedd tir glas.
- 5.10 Mae Argraffiad 8 o Bolisi Cynllunio Cymru yn dweud yn glir fod angen i awdurdodau cynllunio lleol sicrhau fod digon o dir ar gael ar y pryd neu y bydd ar gael yn y dyfodol er mwyn darparu cyflenwad pum mlynedd ar gyfer adeiladu tai (paragraff 9.2.3). Nid yw'r Cyngor wedi sicrhau cyflenwad pum mlynedd ers 2008 (Gweler Graff 2 isod). Mae'r asesiad diweddaraf ar y farchnad dai leol yn dangos y byddai'r cyflenwad tir sydd ar gael yn 2015 yn para 2.8 blynedd. Mae'r cyfrifiad hwn yn seiliedig ar y dull gweddilliol. Mae eglurhad o hyn yn nhabl 1 isod.

Y DULL GWEDDILLIOL	
A.	Defnyddio cyfanswm nifer y tai sydd eu hangen dros gyfnod y cynllun (fel y nodir yn y CDLI) 3800
B.	Cyfrifo faint o dai sy'n weddill i'w hadeiladu drwy dynnu nifer y tai sydd wedi eu codi ers dechrau'r cynllun o gyfanswm nifer y tai sydd eu hangen (A). $3800 - 1536 = 2264$
C.	Cyfrifo'r gofyn 5 mlynedd drwy rannu nifer y tai sy'n weddill (B) gyda sawl blwyddyn o'r cynllun sy'n weddill a lluosu gyda 5. $(2264/6) \times 5 = 1887$
Ch.	Cyfrifo'r angen blyneddol drwy rannu'r angen 5 mlynedd (C) gyda 5. $1887/5 = 377$
D.	Cyfrifo faint o dai a ellid eu hadeiladu dros gyfnod o bum mlynedd (h.y heb unrhyw gyfyngiadau ymarferol a chan gymryd fod y tirlfeddiannwr neu'r datblygwr yn barod i ddatblygu'r safle. 1070
Dd.	Cyfrifo'r cyflenwad tir mewn blyneddoddd drwy rannu cyflenwad y tai (D) gyda'r angen blyneddol (Ch). $1070/377 = 2.8$ mlynedd.

Tabl 1: Y dull gweddilliol o gyfrifo cyflenwad tir 5 mlynedd.

- 5.11 Mae Nodyn Technegol 1 Cyd-Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Adeiladu Tai (Ionawr 2015) yn dweud fod angen ystyried y rhesymau dros unrhyw ddiffyg cyflenwad os nad oes gan awdurdod cynllunio lleol ddigon o dir ar gael. Fel dangoswyd uchod, mae'r cyni economaidd wedi cael effaith fawr ar y gallu i godi digon o dai i gwrdd â'r dyraniadau. Dyma yn wir y prif reswm tros fethu â chyflawni cyflenwad tir pum mlynedd ers 2008. Serch hyn, mae angen adolygu holl ddyraniadau tai y CDLI sydd heb eto'u codi i sicrhau ei bod hi'n dal yn bosib datblygu ar y safleoedd hyn a bod modd adeiladu nifer y tai sydd wedi eu penodi. Fe allai hyn arwain at ddiddymu rhai dyraniadau tai o'r CDLI ac at ddynodi safleoedd newydd i ddiwallu anghenion tai yr ardal hyd at 2031. Fel rhan o'r broses hon bydd 'galwad ffurfiol am safleoedd posib' sef gwahoddiad i unrhyw un gynnig safleoedd datblygu posib.



Graff 2: Cyflenwad y tir i godi tai arno rhwng 2011 a 2015 (blynyddoedd)

- 5.12 Mae'n bwysig nodi os yw ffigwr y tir sydd ar gael ar gyfer tai yn llai na'r gofyniad 5 mlynedd, dylid rhoi pwys mawr ar gynyddu'r ddarpariaeth wrth ymdrin â cheisiadau cynllunio ar gyfer tai. Mae hyn ar yr amod wrth gwrs y byddai'r datblygiad yn cydymffurfio gyda'r cynllun datblygu a pholisïau cenedlaethol ¹⁰. Gad nad oes gan y cyngor ond cyflenwad tir o 2.8 mlynedd, byddai angen rhoi ystyriaeth ddwys i unrhyw ddatblygiad posib o dai sy'n cwrdd â'r meini prawf y crybwyllwyd eisoes. Mae'n bosib wrth gwrs i'r sefyllfa hon danseilio'r ffordd o weithio sy'n seiliedig ar gynlluniau ac sy'n rhoi sicrwydd i ddatblygwyr a'r cyhoedd o ran y math o ddatblygiad a ganiateir ar safle penodol.
- 5.13 O ran dyraniad tai, mae'r *Strategaeth Twf Pellach* yn canolbwyntio ar dri phrif faes: y *Prif Ardal Dwf*, sy'n cynnwys aneddiadau'r gogledd; yr *Ardal Dwf Eilaidd* (sy'n cynnwys Edwardsville, Treharris a Mynwent y Crynwyr; a'r *Ardaloedd Twf Eraill* sy'n cynnwys Treodyrhiw, Aberfan, Ynyswen a Beddllwynog. Mae'r dyraniad tai yn amrywio yn y tair ardal gydag oddeutu 3,134 o dai yn y Brif Ardal, 550 yn yr Ardal Eilaidd a 250 yn yr Ardaloedd Eraill.

¹⁰ Paragraff 6.2 o Nodyn Cyngor Technegol 1 – Astudiaethau Tai ac Argaeledd Tir ar y cyd (Ionawr 2015)


- 5.14 Ers dechrau'r cynllun, mae 1,212 o dai newydd wedi eu codi yn y Brif Ardal Dwf. Tra bod y nifer yma llawer iawn yn fwy na'r niferoedd yn yr Ardal Eilaidd a'r Ardaloedd Eraill, dyw'r lefel ddim yn ddigonol i gwrdd â'r tai mae gofyn eu hadeiladu erbyn 2021. Mae llai o dai na'r disgwyl yn cael eu codi yn yr Ardaloedd Eraill hefyd, gyda dim ond 43 tŷ wedi eu codi ers dechrau'r cynllun. Mae tua 60% o'r tai sydd wedi eu dyrannu yn yr Ardaloedd Eraill, fodd bynnag, yn rhan o Brosiect Glan yr Afon yn Aberfan (H39), lle bu problemau isadeiledd enfawr yn ddiweddar. Bellach does dim cyfyngiadau o gwbl ar y safle fyddai'n rhwystro codi tai yno. Mae hyn yn cynyddu'r posibilrwydd y bydd y 150 tŷ arfaethedig yn cyfranu'n sylweddol at gwrdd â'r gofynion tai erbyn 2021.
- 5.15 O'i gymharu â'r Brif Ardal a'r Ardaloedd Eraill, mae'r gyfradd adeiladu tai yn yr Ardal Eilaidd yn cwrdd â'r targed ar hyn o bryd (281 tŷ wedi eu codi hyd yma) ac o barhau ar y gyfradd hob byddir yn cwrdd â'r gofynion tai erbyn 2021. Mae hyn yn bennaf oherwydd datblygiad H48, datblygiad mawr o dai ger Ystâd Shingrig, ynghyd â sawl datblygiad tai llai (H43, H46, H47 ac H50).
- 5.16 I grynhoi, does dim digon o dai yn cael eu codi i gwrdd â gofynion Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol. O ganlyniad, does gan y Sir ddim cyflenwad tir 5 mlynedd ac mae hyn yn ei wneud yn agored i ddatblygiadau tai mympwyol. Er bod amgylchiadau economaidd yn gwella, mae ansicrwydd yn dal i fod ynghylch pryd fydd cyfraddau adeiladu yn cyrraedd y lefel angenrheidiol i gwrdd ag anghenion y Strategaeth ac a oes modd cynnal y gyfradd honno dros gyfnod o amser. Mae llwyddiant y gyfradd adeiladu yn amrywio rhwng yr ardaloedd twf hefyd gyda'r Ardal Eilaidd yn gwneud yn well na'r Brif Ardal a'r Ardaloedd Twf eraill. Ystyrir felly bod angen ailedrych ar lefel y twf a gwasgariad y tai er mwyn penderfynu ai'r strategaeth bresennol yw'r un orau i ddarparu'r twf hyd at 2031.

Gwaith

- 5.17 Mae cynyddu cyfleoedd gwaith yn y Fwrdeistref Sirol yn un arall o elfennau pwysig y *Strategaeth Twf Pellach*. O'r herwydd mae'r cynllun yn dynodi 27.52 hectar o dir i'w ddatblygu fel safleoedd gwaith fel rhan o'r Brif Ardal Dwf. Mae angen 9.2 ha o dir fel hyn i gwrdd â gofynion y Strategaeth (0.7 ha ar gyfer diwydiant/warysau a 8.5 ha fel swyddfeydd) ¹¹. Credwyd, fodd bynnag, bod angen darparu mwy na hyn er mwyn ystyried gofynion y sector rheoli gwastraff, ac i roi dewis a hyblygrwydd i'r farchnad gyflogi.
- 5.18 O ran tir cyflogaeth i'w ddefnyddio ar gyfer diwydiant / warysau (B2/B8), mae 15,601 o ofod llawr wedi ei ddarparu (gweler graff 3 isod). O'r herwydd, mae anghenion y strategaeth a'r targedau gofod llawr dros dro B2/B8 (sy'n deillio o


¹¹ Merthyr Tydfil CBC Employment Land Review, Roger Tym & Partners (Gorffennaf 2010)

ddyraniadau'r CDLI) wedi eu cyrraedd. Fodd bynnag, mae'r targed mwy hirdymor o ddarparu o leiaf 56,500 m² o ofod llawr B2/B8 erbyn 2021 yn dal yn un heriol. O'r herwydd, dylid adolygu'r holl ddyraniadau cyflogaeth sydd heb eu datblygu eto i sicrhau ei bod yn dal yn bosib eu darparu.



Graff 3: Cyfanswm y gofod llawr B2/B8 sydd wedi ei ddarparu dros gyfnod y cynllun hwn.

- 5.19 O ran tir i'w ddefnyddio i godi swyddfeydd, (B1), mae 10,661 m² o ofod llawr wedi ei ddarparu (Gweler graff 4 isod) sy'n cwrdd ag oddeutu 30% o anghenion y strategaeth ac sy'n llawer llai na tharged gofod llawr B1 sydd ar y gorwel, sef i ddarparu rhwng 28,500 a 30,790 m² erbyn 2016. O'r herwydd, mae pryderon o ran cwrdd â Nod Strategol 7, sy'n anelu at 'wella ac arallgyfeirio'r economi', yn enwedig o ystyried y rhagwelwyd mai gwaith swyddfa fyddai'r prif sector twf dros gyfnod y cynllun.



Graff 4: Cyfanswm y gofod llawr B1 sydd wedi ei ddarparu dros gyfnod y cynllun hwn.

- 5.20 Mae'r CDLI yn dynodi dau safle cyflogaeth at ddefnydd B1 yn benodol am eu bod yn ddeniadol i'w defnyddio fel lleoliad swyddfeydd. Y safleoedd hyn yw E6 (Rhydycar) ac E8 (Hen Faes Parcio Hoover Car Park). Tra bod dau safle arall yn y CDLI, sef E4 (Ffordd Goatmill) ac E5 (Ffos-y-Fran) hefyd yn cynnwys defnydd B1, mae eu lleoliad ymylol yn eu gwneud yn fwy addas ar gyfer diwydiant ysgafn fel rhan o'r dosbarthiad defnydd tir B1. Mae dau ddatblygiad ar wahân wedi eu datblygu ar ddyraniad cyflogaeth E6, gan adael dim ond 1.77 hectar o dir ar gael i'w ddefnyddio ar gyfer swyddfeydd yn y dyfodol. Mae cyfran debyg o dir ar gael ar gyfer swyddfeydd yn nyraniad cyflogaeth e8 (1.67 hectar). Gyda'i gilydd, nid yw'r safleoedd hyn ond yn cynnig dewis cyfyngedig i'r farchnad gyflogaeth, ac fe gredir felly y dylid adolygu dyraniadau cyflogaeth B1 er mwyn gweld a oes modd darparu mwy o ofod B1 drwy adnabod safleoedd cyflogaeth pellach fyddai'n llefydd atyniadol i godi swyddfeydd arnynt.
- 5.21 Mae angen ystyried hefyd faint o dir cyflogaeth sydd angen ei ddarparu erbyn 2031 gan seilio hyn ar amcaniadau poblogaeth diwygiedig ac ar yr adolygiad o gyfradd gyflogi pobl mewn oed gwaith. Byddai angen hefyd ystyried gofynion newydd penod 7 Datblygiad Economaidd Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 8 (Ionawr 2016), Nodyn Cyngor Technegol 23 Datblygiad Economaidd (Chwefror 2014) a chanllaw diweddar Llywodraeth Cymru (Awst 2015) *"Canllaw Ymarferol – Adeiladu Sail Tystiolaeth ar gyfer Datblygu Economaidd er mwyn Cefnogi Cynlluniau Datblygu Lleol."* Bydd adolygiad o gyflenwad cyffredinol y tir cyflogaeth hefyd yn rhan o'r gwaith hwn er mwyn sicrhau nad yw lefel yr hyblygrwydd yn anghyson efo'r farchnad gyflogaeth a bod modd defnyddio'r tir at ddibenion eraill os oes angen.

6.0 Polisiâu'r CDLI

- 6.1 Mae holl bolisiau'r CDLI wedi eu hadolygu yn seiliedig ar ganfyddiadau adroddiadau monitro blynyddol blaenorol ¹² a thystiolaeth o newidiadau cyd-destunol sylweddol, fel newidiadau yn y cyd-destun lleol a/neu newidiadau i bolisi neu ddeddfwriaeth genedlaethol. Mae atodiad 3 yn crynhoi a yw'r polisi'n gweithio'n effeithiol ac a yw'n bosib y bydd angen diwygio ambell beth fel rhan o adolygiad cynllun. Os yw newid yn y cyd-destun yn debygol o gael effaith fawr ar bolisiau fel y bydd angen o bosib eu haddasu, fe drafodir nhw isod mewn mwy o fanylder o dan benawdau gwahanol.

Tai Fforddiadwy

- 6.2 Yn ystod arolygiad y CDLI yn 2010, roedd angen i'r Cyngor gynhyrchu Asesiad Marchnad Dai Leol diwygiedig gan ystyried sawl mater a godwyd gan yr Arolygydd yn y sesiynau gwrandio dechreuol. Bu i'r asesiad ganfod bod angen 34 uned fforddiadwy bob blwyddyn yn y Fwrdeistref Sirol, (20 yn y Brif Ardal Dwf; 2 bob blwyddyn yn yr Ardal Dwf Eilaidd a 12 bob blwyddyn yn yr Ardaloedd Twf Eraill). Bu i'r canfyddiadau hyn ddarparu'r dystiolaeth ar gyfer Polisi BW19 (y targed tai fforddiadwy cyffredinol) a Pholisi AS22 (cyfraniadau tai fforddiadwy yn seiliedig ar ddichonoldeb).
- 6.3 Roedd Deddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi rheidrwydd ar awdurdodau lleol i gynhyrchu Asesiad Marchnad Dai Leol cyfoes erbyn Ebrill 2015 ac i ddiweddarau'r asesiad bob blwyddyn. Cynhyrchwyd Asesiad Marchnad Dai Leol diwygiedig ym mis Mawrth 2015 gan ddilyn y fethodoleg oedd wedi ei chynnwys yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru – sy'n wahanol i'r fethodoleg flaenorol a ddefnyddiwyd yn 2010. Canfuwyd o hyn fod angen 366 uned fforddiadwy yn y Fwrdeistref Sirol bob blwyddyn. Mae hyn ddeg gwaith yn fwy na'r angen oedd wedi ei adnabod yn asesiad 2010.
- 6.4 Tra bod y drefn a ddefnyddir yn y ddau Asesiad Marchnad Dai Leol yn weddol debyg, mae rhai gwahaniaethau yn y ffordd o gyfrifo. Canlyniad hyn oedd fod canfyddiadau'r Asesiad Marchnad Dai Leol diweddaraf yn wahanol iawn i asesiad 2010. Y gwahaniaeth mwyaf rhwng y ddwy fethodoleg oedd cyfrifo'r angen oedd wedi codi ymysg y cartrefi oedd yn bodoli eisoes. Bu i asesiad 2010 ragdybio y byddai angen cymorth tai ar ganran penodol o berchnogion tai (0.37%) oherwydd trafferthion ariannol. Mae asesiad 2015 yn cyfrifo'r angen o ymysg y cartrefi presennol drwy edrych ar gyfartaledd y nifer blynyddol o bobl ddaeth yn ddigartref yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r ail ffordd yn rhoi darlun cywirach o angen o'i gymharu â chartrefi sy'n bodoli'n barod

¹² Gweler Atodiad 1 i weld llwyddiannau'r polisi fel y codwyd nhw o Adroddiad Monitro Blynyddol 2015

gan nad yw'n rhoi ystyriaeth i ddim ond amgylchiadau ariannol; mae hefyd yn ystyried achosion eraill o fod angen tŷ fel amgylchiadau personol gan gynnwys chwalu teuluol a newidiadau cyd-destunol eraill fel y 'dreth lofft'.

- 6.5 O ystyried y cynnydd sylweddol a fu yn yr angen am dai fforddiadwy ym Merthyr Tudful, bydd angen ailystyried y polisiau tai fforddiadwy a grybwyllwyd eisoes yn y CDLI. Hwyrach hefyd y bydd angen ailystyried Polisi TB13 (safleoedd tai fforddiadwy eithriedig) er mwyn darparu cymaint â phosib o dai fforddiadwy ar draws y Fwrdeistref Sirol.
- 6.6 Yn ychwanegol at y newid mawr mewn angen ers cyhoeddi'r Asesiad Marchnad Dai Leol, mae tystiolaeth sy'n dangos bod angen edrych ar ba mor ddichonadwy yw targedau polisi o ran darparu tai fforddiadwy. Er enghraifft, bu newid o fwy na 10% yn incwm a phrisiau tai cyfartalog ers cyhoeddi'r CDLI yn 2011, a bu i'r Cyngor fabwysiadu Treth Isadeiledd Cymunedol ar yr 2il o Fehefin 2014. Fel canlyniad, mae angen edrych ar fforddiadwyedd yn ei gyfanrwydd.

Teithwyr Sipsi

- 6.7 Cynhyrchwyd yr Asesiad Lletya Teithwyr a Sipsiwyn oedd yn sail i'r CDLI mabwysiedig yn 2008 gan adnabod angen am 10 safle ychwanegol. Doedd hyn ddim yn golygu bod angen dynodi safle newydd ar gyfer Sipsiwyn a Theithwyr gan fod digon o gyflenwad yn safle Glynmill i ddechrau aildddefnyddio safleoedd oedd wedi eu dadgomisiynu. Bu i'r astudiaeth argymhell sawl peth arall hefyd megis gwella'r mynediad i'r safle a sefydlu grŵp trigolion. Doedd dim angen wedi ei adnabod am safle teithiol yn asesiad 2008.
- 6.8 Daeth hi'n ofyniad statudol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 i asesu anghenion lletya Sipsiwyn a Theithwyr a darparu safleoedd lle be angen am hynny. Mae'r cyngor yn ddiweddar wedi cynhyrchu Asesiad Lletya Sipsiwyn a Theithwyr diwygiedig sydd wedi canfod, er nad oes angen safleoedd ychwanegol erbyn diwedd y cyfnod pum mlynedd sy'n gorffen yn 2020, bydd angen 4 safle ychwanegol dros y pymtheg mlynedd fydd yn gorffen yn 2030. O ran yr agwedd olaf hyn, ystyrir fod digon o le i ddiwallu'r ddarpariaeth ychwanegol ar safle Glynmill. Oherwydd hyn, ni fydd yn ôl pob tebyg angen safleoedd ychwanegol ym Merthyr Tudful.
- 6.9 O ran yr angen am safle aros dros dro, nid yw'r data o ran niferoedd y carafanau na chofnodion lleol yn dangos unrhyw dystiolaeth o wersylla diawdurdod nac o bobl yn aros ym merthyr Tudful. Does dim tystiolaeth chwaith o unrhyw geisiadau cynllunio mawr ynglŷn â safleoedd aros dros dro. Mae'r Asesiad Lletya Sipsiwyn a Theithwyr yn dod i'r casgliad felly nad oes angen gweladwy am safle aros dros dro ym Merthyr Tudful. Mae, fodd

bynag, yn adnabod y gallai fod angen safle rhanbarthol. Byddai angen trafod hyn wrth gwrs gyda'r awdurdodau cyfagos.

Cyfleusterau Cymunedol

- 6.10 Bu'r CDLI mabwysiedig yn effeithiol yn darparu amryw o gyfleusterau cymunedol fel ysgolion cynradd. Coleg Merthyr, Parc Iechyd Merthyr a Chanolfan Gofal Cynradd Treharris. O'r herwydd, mae angen tynnu nifer o bolisïau ardal penodol o'r CDLI. O ran gofynion y dyfodol. Mae'r awdurdod addysg lleol wedi adnabod angen am ysgol Gymraeg newydd yn ardal Cefn. Bydd angen ystyried anghenion y darparwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill wrth adolygu'r CDLI hefyd.

Gwastraff

- 6.11 Ym mis Chwefror 2014, bu i Lywodraeth Cymru gyhoeddi fersiynau diwygiedig o Bolisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21 i adlewyrchu newidiadau ym mholisi lleol a chanllawiau gwastraff. O ran cynlluniau datblygu, mae Polisi Cynllunio Cymru yn dangos y bydd angen i gynlluniau datblygu lleol ystyried Cynllun y Sector Casglu, Seilwaith a Marchnadoedd, adroddiadau monitro cynllunio gwastraff a blaenoriaethau rheoli gwastraff sy'n berthnasol i'r ardal (paragraff 12.6.1.). At hyn, dylai CDLI adnabod lleoliadau addas i osod cyfleusterau rheoli gwastraff cynladwy (paragraff 12.6.2) a sicrhau fod yna gyfleoedd i leihau neu ailgylchu gwastraff wrth ddylunio ac adeiladu'r adeilad a'i redeg wedyn (paragraff 12.6.3). Ymhelaethir ar y polisïau hyn yn TAN21, sydd hefyd yn gosod allan trefniadau monitro rhanbarthol blynyddol. Er nad yw'r cynlluniau gwastraff rhanbarthol, a ddylanwadodd ar y CDLI mabwysiedig, yn weithredol bellach, mae'r 'ardaloedd mapiau chwilio rhanbarthol' yn parhau'n berthnasol i adnabod safleoedd sy'n addas i godi cyfleusterau rheoli gwastraff.
- 6.12 Bydd angen diwygio Polisi AS7 Y CDLI (Cyfleusterau trin gwastraff – dewis leoliad) i ystyried newidiadau i bolisi cenedlaethol, yn enwedig o ran diddymu'r cynlluniau gwastraff rhanbarthol. Mae angen dileu polisi AS8 y CDLI hefyd (safle mwynderau dinesig newydd) o ganlyniad i newidiadau yn y blaenoriaethau rheoli gwastraff lleol. Er hyn, mae monitro blynyddol wedi dangos fod targedau gwastraff yn cael eu cyrraedd a bod y polisïau rheoli gwastraff yn eu hanfod yn gadarn. Ers dechrau'r Cynllun, mae cyfleusterau trin gwastraff wedi eu gosod ar "fannau chwilio" sydd wedi eu hadnabod yn lleol ac mae digon o le yn dal i fod yn safle tirlenwi Trecatti. Mae trefniadau rhanbarthol yn bod hefyd i brosesu gwastraff bwyd, gwastraff gwyrdd a gesglir yn y fwrdeistref ac unrhyw wastraff dros ben. Mae Polisi BW7 y CDLI a'r SPG Dyluniad Cynaliadwy hefyd yn darparu fframwaith polisi addas i sicrhau amcanion rheoli gwastraff cynaliadwy yn nyluniad datblygiadau newydd.

Mwynau

- 6.13 Mae Adolygiad cyntaf y Datganiad Technegol Rhanbarthol ar Gynnyrch Crynswth (y 25^{ain} o Orffennaf 2014) yn cynnwys yr argymhellion diweddaraf i awdurdodau cynllunio mwynau o ran faint o gerrig mâl sydd angen eu darparu o'u hardaloedd nhw (dosraniadau) a chyfanswm tunelli unrhyw ddyraniadau newydd fyddai angen eu gwneud o bosib yn eu cynllun datblygu lleol i sicrhau fod y ddarpariaeth yn ddigonol drwy gydol cyfnod perthnasol y cynllun. O ran dosraniadau ar y cyd ¹³ neu ddyfodol darpariaeth gerrig mâl cynradd o'r tir ym Merthyr Tudful a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, mae angen 0.82 miliwn tunnell o gerrig mâl bob blwyddyn. Mae hyn yn cyfateb i 20.5 miliwn tunnell o gerrig mâl dros y cyfnod 25 mlynedd sy'n rhan o'r RTS (hyd at 2036.) Wrth gymharu hyn gyda'r banc tir ar y cyd o 94 miliwn tunnell o gerrig mâl gwelwn fod yna ffynonellau dros ben o gerrig i'w malu ac o'r herwydd does dim angen unrhyw ddyraniadau pellach ar gyfer cerrig mâl yng nghynlluniau datblygu lleol Merthyr Tudful na'r Bannau Brycheiniog.
- 6.14 Bu i'r Arolwg Daearegol Prydeinig ddiweddarau'r mapiau gwarchod cynnyrch crynswth yn 2012 ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r mapiau diwygiedig wedi adnabod ffynonellau tywod yn y Fwrdeistref Sirol nad ydyn nhw'n cael eu gwarchod ar hyn o bryd o dan Polisi BW10 (Gwarchod Mwynau). Mae angen felly diwygio cyfiawnhad polisi BW10 a map cynllun y CDLI i ystyried y newid yma.
- 6.15 Mae'r chwarel segur yng Nghastell Morlais hefyd yn cael sylw yng nghyfiawnhad polisi BW10 (paragraff 3.10.6) lle cyfeirir at yr angen i gael gorchymyn gwahardd fyddai'n gwahardd ailddechrau cloddio am fwynau. Bu i Lywodraeth Cymru gadarnhau'r gwaharddiad ar y chwarel ar y 26ain o Dachwedd 2013 ac o'r herwydd mae angen tynnu chwarel Castell Morlais o fap cynlluniau y CDLI a dileu paragraff 3.10.6.
- 6.16 Mae cynllun adennill tir Ffos-y-Fran wedi bod yn weithredol drwy'r rhan fwyaf o fywyd y cynllun ac mae gwaith adfer ar gam 1 y cynllun wedi dechrau. Mae angen ystyried felly diwygio ardal ffiniol Ffos-Y-Fran (Polisi TB9: Ardaloedd ffiniol Mwynau) i adlewyrchu adferiad cynyddol y cynllun.
- 6.17 Yn 2013 bu i'r Arolwg Daearegol Prydeinig gyhoeddi archwiliad Safleoedd Amrywiaeth Daearegol o Bwys Rhanbarthol yn Ne Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r archwiliad yn adnabod dau safle newydd yn y Fwrdeistref Sirol, sef Llan Uchaf, Beddlwynog a Nant Ffrwd, Merthyr Tudful. Nid yw'r safleoedd

¹³Mae Merthyr Tudful a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi eu cyfuno oherwydd rhesymau masnachol cyfrinachol.

hyn wedi eu gwarchod gan unrhyw bolisiâu o fewn y CDLI ac mae felly angen ystyried y gofyn dros gael dynodiad statudol o ran RIGS.

Trafnidiaeth

- 6.18 Bu i bum awdurdod lleol cymoedd de ddwyrain Cymru sef Blaenau Gwent, Caerffili, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen lunio ar y cyd Cynllun Trafnidiaeth Lleol Cymoedd De Ddwyrain Cymru. Fe'i cyhoeddwyd ym mis Ionawr 2015. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol yn disodli'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a dynnwyd arno wrth baratoi'r CDLI mabwysiedig.
- 6.19 Nid yw'r mentrau trafndiaeth blaenoriaethol a adnabuwyd yn y Cynllun Trafnidiaeth Lleol yn cael eu hadlewyrchu'n llawn yn y CDLI. O'r herwydd, mae angen rhoi ystyriaeth bellach i bolisiâu a goblygiadau datblygiadau o'r fath i sicrhau bod modd eu darparu yng nghyd-destun polisi lleol. Mae angen ystyried y meysydd trafndiaeth canlynol sydd wedi eu hadnabod yn y Cynllun Trafnidiaeth Lleol: Symud canolfan fysiau canol y dref, creu cynllun parcio a theithio yng ngorsaf drenau Pentrebach, llwybrau troed / beic ychwanegol fel rhan o fentrau teithio corfforol, a chreu ffordd amgen i gerbydau i bentref Abercanaid.

Ynni Adnewyddol a Charbon Isel

- 6.20 Bu i Lywodraeth Cymru anfon llythyr at awdurdodau cynllunio lleol ar y 10^{fed} o Ragfyr 2015 yn amlinellu disgwyliadau'r Gweinidog Adnoddau Naturiol o ran polisiâu ynni mewn cynlluniau datblygu lleol. Yn benodol, mae'n amlygu uchelgais Llywodraeth Cymru i weld mwy o ddefnydd o bolisiâu gofodol mewn cynlluniau datblygu lleol i adlewyrchu'r dyheadau o ran ynni adnewyddol. Mae'n sôn hefyd am bryder y Llywodraeth nad yw elfennau o'r polisiâu ynni ym Mholisi Cynllunio Cymru yn cael eu gweithredu'n llawn gan awdurdodau cynllunio lleol.
- 6.21 Ni fu i'r polisiâu ynni cyfredol ym Mholisi Cynllunio Cymru ddylanwadu ar y CDLI mabwysiedig gan y cyflwynwyd nhw ym mis Chwefror 2011, dim ond tri mis cyn mabwysiadu'r CDLI ym mis Mai 2011. Mae PCC yn datgan y dylai awdurdodau cynllunio lleol hwyluso datblygiad pob math o ynni adnewyddol a charbon isel drwy ystyried y cyfraniad y gall eu hardal ei wneud; creu polisiâu cynllun datblygu sy'n caniatáu datblygu'r cyfraniad hwn; a sicrhau fod penderfyniadau rheoli datblygu yn gyson gyda gofynion newid hinsawdd cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys cyfrannu at dargedau a dyheadau o ran ynni adnewyddol.
- 6.22 Bu i Lywodraeth Cymru gyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o'r Pecyn Ynni Adnewyddol yn 2015 ac mae gofyn i Asesiadau Ynni Adnewyddol lunio rhan o

sail tystiolaeth y CDLI. Mae'r llythyr y crybwyllwyd eisoes yn cadarnhau y dylai AYA fod yn sail i bolisiau, meysydd archwilio a dyraniadau sy'n arwain mentrau ynni adnewyddol ar lefel awdurdod lleol (5MW – 25MW). Mae'n egluro ei bod yn bwysig fod y system gynllunio yn adnabod a gwarchod ardaloedd sydd â photensial i'w datblygu fel ffynonellau ynni adnewyddol hir dymor.

- 6.23 Mae'n glir y bu newidiadau o bwys yng nghyd-destun ynni adnewyddol a charbon isel ers mabwysiadu'r CDLI. Bydd hyn yn fater o bwys wrth ddiwygio'r CDLI ac fe ragwelir newidiadau polisi.

Manwerthu

- 6.24 Ar adeg cynhyrchu'r CDLI fe gomisiynwyd astudiaeth cyflenwad manwerthu a hamdden masnachol i wel beth oedd y galw am siopau hwylus a manwerthu. Gwnaed amcan y byddai angen nifer cymharol fechan o ofod manwerthu hwylus (789m²) ac fe ragwelwyd y gellid codi archfarchnad fechan neu amrywiaeth o ddarpariaeth leol i gwrdd â'r gofyn yma. O'r herwydd, ni ystyriwyd fod angen dynodi mannau yn y CDLI i gwrdd â'r gofyn yma.
- 6.25 O ran manwerthu cymharol, amcangyfrifwyd y byddai angen 2,300 m² o ofod llawr yn seiliedig ar gynnydd o bwynt 1% yng nghyfradd gadw'r gwariant a gollir o'r Fwrdeistref Sirol. Yn hyn o beth, dynodwyd nifer priodol o dir i gwrdd â'r gofyn hwn ar safle presennol Gorsaf Fysiau Ganolog Merthyr Tudful (Policy AS20: Dyraniadau manwerthu) fel rhan o gynllun ehangach fyddai hefyd yn cynnwys ailfodelu'r orsaf fysiau.
- 6.26 Mae'r sir wedi cwrdd â'r gofyn o ran gofod manwerthu hwylus a chymharol er na ddaeth y dyraniadau manwerthu i olau dydd. Mae nifer o ddatblygiadau manwerthu amgen wedi eu caniatáu mewn sawl lle ar draws y Fwrdeistref Sirol yn seiliedig ar ganfyddiadau'r asesiadau manwerthu perthnasol. Mae angen felly gwneud astudiaeth darpariaeth manwerthu newydd gan ystyried y datblygiadau manwerthu sydd wedi eu caniatáu yn y Fwrdeistref a'r angen i gynllunio ymlaen at 2031.
- 6.27 Bydd angen ailystyried y dyraniad manwerthu yn yr Orsaf Fysiau Ganolog hefyd yng ngholeuni penderfyniad y Cyngor i symud yr orsaf fysiau i Swan Street ar safle cyfunol hen Ganolfan Iechyd Hollies a'r hen Orsaf Heddlu Ganolog. Mae'r safleoedd hyn wedi eu hamlygu fel rhai sydd o bosib yn addas ar gyfer datblygu safleoedd manwerthu (paragraff 40.20.6 o'r CDLI); fodd bynnag, bydd angen canolbwyntio ar safle'r Orsaf Fysiau Ganolog wrth ddatblygu unrhyw gyfleusterau manwerthu yng nghanol y dref yn y dyfodol.

Bydd angen felly ystyried y posibilrwydd o ddynodi lle i gofi siop fwy ar y safle er mwyn cwrdd â gofynion manwerthu hyd at 2031.

Llefydd Agored

- 6.28 Mae'r Adran Gynllunio wedi paratoi Strategaeth Llefydd Agored ddrafft yn seiliedig ar asesiadau angen lleol ac arolygon o'r ddarpariaeth llefydd agored sydd yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r Strategaeth yn adnabod llefydd agored o bwys lleol (9 i gyd), yn gosod y safonau o ran gwahanol fathau o lefydd agored ac yn gosod yr angen am fathau pellach o lefydd agored. Mae diffygion o ran mynediad, nifer ac ansawdd wedi eu hadnabod fesul ward ar gyfer pob math o le agored.
- 6.29 Mae hi'n amlwg o'r Strategaeth Llefydd Agored Drafft fod yna ddiffygion gyda sawl math o le agored. Mae'r sefyllfa'n amrywio ar draws y Fwrdeistref Sirol gyda gwell darpariaeth mewn rhai wardiau nag eraill. Mae hi hefyd yn amlwg fod amrywiaeth fawr rhwng wardiau o ran y mathau o lefydd agored sydd yna.
- 6.30 Ar y cyfan, mae angen clir am fwy o le agored yn y Fwrdeistref Sirol ac mae'n debyg y bydd hyn yn fater o bwys wrth ddiwygio'r CDLI o ystyried eu rhan yn gwella iechyd a lles pobl. O ganlyniad, bydd angen ailystyried y polisïau canlynol: BW16 (Amddiffyn/ gwella'r rhwydwaith o gyfleusterau hamdden), BW17 (Sicrhau manteision isadeiledd cymunedol) ac AS17 (Lle chwaraeon / chwarae awyr agored newydd)

Yr Amgylchedd Hanesyddol

- 6.31 Wrth wneud gwaith monitro blynyddol ar bolisïau'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol gwelir nad oes unrhyw bryder o ran pa mor effeithiol maen nhw'n cael eu gweithredu. Fodd bynnag, mae'r cyd-destun wedi newid cryn dipyn ers mabwysiadu'r CDLI, gan gynnwys dynodi ardaloedd newydd cadwraeth newydd a diwygiedig yn Council Street, Urban Street a Thretomos, dynodi Parc a Gardd Hanesyddol Mynwent Cefn a chyhoeddi astudiaeth o nodweddion trefol Merthyr Tudful gan Cadw¹⁴. Caiff y CDLI ei ddiwygio gyda'r newidiadau hyn mewn golwg, ynghyd â newidiadau fydd yn deillio o ddiweddarau'r Gofrestr Adeiladau a Risgiau yn 2016.

Treftadaeth Naturiol

¹⁴ Cadw (Llywodraeth Cymru), *Merthyr Tudful - Deall Nodweddion Trefol* (2015).

- 6.32 Mae polisïau treftadaeth naturiol y CDLI yn cwrdd â'r targedau monitro blynyddol ar hyn o bryd, ac oherwydd hyn, ystyrir eu bod yn gweithio'n effeithiol. Fodd bynnag, mae angen addasu'r safleoedd pwysig i gadwraeth natur sydd wedi eu dynodi i adlewyrchu'r arolygon coetiroedd conwydd a wnaed yn 2013. O ganlyniad i'r arolygon, cafwyd fod pedwar safle newydd yn cwrdd â'r meini prawf safleoedd pwysig i gadwraeth natur. Mae angen felly eu dynodi o dan Bolisi AS6 (Dynodiadau Cadwraeth Natur Lleol) a'u hychwanegu at Fap y Cynigion. Bydd cynnwys y safleoedd hyn yn mynd i'r afael â'r diffyg cydymffurfio yn yr awdurdodau cyfagos o ran dynodi coetiroedd conwydd yn safleoedd pwysig i gadwraeth natur.
- 6.33 Mae'r Adran Gefn Gwlad wrthi hefyd yn cynnal arolwg mwy cyffredinol ar yr holl ddynodiadau safleoedd pwysig i gadwraeth natur er mwyn adnabod unrhyw newidiadau i'w statws ecolegol ers eu harolygu a'u dynodi gyntaf. Caiff y gwaith hwn ei ddefnyddio wrth ail ddynodi'r holl safleoedd pwysig i gadwraeth natur mewn CDLI diwygiedig.

Gofynion Cynllunio

- 6.34 Bu i'r Cyngor fabwysiadu Treth Isadeiledd Cymunedol ar yr 2^{il} o Fehefin 2014 sef treth orfodol a godir a bob datblygiad cymwys.
- 6.35 Bydd angen cadarnhau'r berthynas rhwng Treth Isadeiledd Cymunedol a rhwymedigaethau cynllunio eraill mewn CDLI diwygiedig. Yn benodol, mae'n debyg y bydd angen diwygio Polisi CDLI BW17 (Sicrhau manteision isadeiledd cymunedol) a rhwymedigaethau cynllunio safleoedd datblygu dynodedig i ryw raddau.

Map Cynllun

- 6.36 Mae Map Cynllun y CDLI yn cynnwys nifer o ddynodiadau a gant eu pennu gan fecanweithiau sy'n eistedd y tu allan i broses y CDLI. Rhai enghreifftiau yw mannau lle mae perygl llifogydd, adeiladau rhestredig a mannau o ddiddordeb gwyddonol arbennig. Mae Llawlyfr Diwygiedig y Cynllun Datblygu Lleol (Cyhoeddiad 2, Awst 2015) yn datgan nad oes angen cynnwys dynodiadau o'r fath ar Fap Cynllun y CDLI ac, yn lle hynny, bod modd eu dynodi ar Fap Cyfyngiadau (Gweler Adran 2.4, Tudalen 16 o Lawlyfr y CDLI). Er nad yw Map Cyfyngiadau yn ofyniad statudol nac yn rhan o'r CDLI, fe ddylai'r CDLI gyfeirio ato a rhestru'r dynodiadau sydd wedi eu rhestru arno.
- 6.37 Byddai defnyddio Map Cyfyngiadau yn fodd o wneud Map Cynlluniau'r CDLI yn llawer cliriach ac yn fodd hefyd o ddiwygio'n rhwydd fel bo angen i ystyried

newidiadau nad ydyn nhw'n cael eu penderfynu arnyn nhw gan y CDLI. Ar hyn o bryd, nid yw sawl ardal ar Fab Cynlluniau'r CDLI lle mae perygl llifogydd yn dangos y sefyllfa ddiweddaraf. Ystyrir defnyddio Map Cyfyngiadau fel rhan o CDLI diwygiedig.

7.0 Gwerthuso Cynaliadwyedd

- 7.1 Fe gynhaliwyd yr adolygiad o'r cynlluniau, polisïau, rhaglenni a data gwaelodlin sy'n sail i'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) cyfredol ym mis Rhagfyr 2006, ac adroddwyd arno yn yr Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd Terfynol a gyflwynwyd ym mis Mai 2011. Cyhoeddwyd adroddiad sgrinio'r rheolau asesu Cynefinoedd ym mis Awst 2008.
- 7.2 Ers mabwysiadu'r CDLI, mae'r Cyngor wedi monitro cyflwr yr amgylchedd yng ngoleuni set o nodau a gyflwynwyd yn yr adroddiad CA (yr Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd/Cynaliadwyedd Amgylchedd). Roedd y Cyngor wedi gweld bod monitro pob un o ddangosyddion y nodau cynaliadwyedd yn anodd oherwydd bod ffynnonellau data'n anodd eu cael neu'n anodd eu cael ar yr adeg angenrheidiol. O ganlyniad fe fu i'r Cyngor, er mwyn cyflwyno asesiad o berfformiad cynaliadwyedd yn y modd mwyaf trefnus ac ystyrlon, gyfyngu'r gwerthusiad AMR i sylwadau ar, ac asesiad cryno o, bob un o'r 15 nod CA.
- 7.3 Er bod monitro cyflwr yr amgylchedd ac effaith y Cynllun Datblygu arno'n anodd, ac er bod cryn amser wedi mynd heibio ers cynnal yr adolygiad o waelodlin, cynlluniau, polisïau a rhaglenni amgylcheddol y Cyngor yn 2006, mae gwaith wedi ei wneud i ddiweddarau'r elfennau hyn o'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd.
- 7.4 Mae cryn newid wedi bod ers 2006 yng nghyd-destun y cynlluniau, y polisïau a'r rhaglenni, yn arbennig felly yn sgîl cyflwyno Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. Mae'r cyntaf yn diffinio'r hyn ydi datblygiad cynaliadwy ac yn gosod nodau lles. Mae'r ail yn gosod fframwaith ddatblygu genedlaethol a chynlluniau datblygu strategol sy'n tremio dros gynlluniau datblygu lleol yn y system cynlluniau datblygu. Mae'r dogfennau polisi a chanllawiau cenedlaethol (Polisi Cynllunio Cymru, Nodiadau Cyngor Technegol (TAN), Cylchlythyrau a'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol) hefyd wedi eu hadolgyu a'u diweddarau.
- 7.5 Mae adolygiad a wnaethpwyd o'r gwaith sy'n ei gymharu â'r arfer gorau cyfredol ac â chyfraith achosion diweddar yn dangos bod agweddau o asesiad y cynllun y gellid eu gwella. Ymhlith yr agweddau hyn mae diwylliant, yr amgylchedd hanesyddol, pridd a sŵn. Mae posib gwella hefyd ar y proses o adnabod cynlluniau ar wahanol lefelau ac i roi mwy o bwyslais ar adnabod rhaglenni ariannu sy'n gwireddu bwriadau'r Cynllun.

- 7.6 O ran data amgylcheddol, mae'r gwaelodlin wedi newid ers 2006 ac mae cysyniad y 'gwaelodlin sy'n esblygu'¹⁵ wedi dod i rym (lle mae newidiadau yn y gwaelodlin yn cael eu monitro'n rheolaidd). Mae hyn wedi ei wneud fel rhan o broses monitro blynyddol y nodau CA. Wedi adolygu'r gwaelodlin blaenorol yng ngoleuni gwybodaeth newydd a mwy diweddar, mae'n amlwg bod materion allweddol amgylcheddol heddiw'n wahanol i rai 2006. Mae'n ymddangos bod amodau'r CDLI newydd a'r her y bydd yn rhaid iddo ei drafod yn mynd i fod yn wahanol. Ac o edrych ar y wybodaeth newydd a diweddar hon, mae lle hefyd i fireinio Nodau Cynliadwyedd y Cynllun.

¹⁵ *Guidance on integrating Climate Change and Biodiversity into Strategic Environmental Assessment*, dogfen yr Undeb Ewropeaidd (2013).

8.0 Cynlluniau ar y cyd â chynghorau eraill

- 8.1 Mae Adroddiad Williams (Ionawr 2014) ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'n argymhell lleihau nifer yr awdurdodau lleol yng Nghymru i oddeutu 10 er mwyn cyflwyno gwasanaethau'n effeithiol yn y dyfodol. Mae'r map ad-drefnu a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn dangos Bwrdeistref Merthyr Tudful yn uno â Bwrdeistrefi Rhondda Cynon Taf a Phenybont-ar-Ogwr.
- 8.2 Mae Deddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol 2004 yn rhoi'r hawl i ddau neu fwy o awdurdodau cynllunio gyd-baratoi cynlluniau datblygu lleol, os yn dymuno gwneud hynny. Ar ben hynny, mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn rhoi'r grym i Weinidogion Llywodraeth Cymru gyfarwyddo awdurdodau lleol i lunio cynlluniau datblygu lleol ar y cyd.
- 8.3 Yng ngoleuni'r newidiadau hyn yn y cyd-destun a'r ddeddfwriaeth, mae angen rhoi ystyriaeth i'r mater o gydweithio a pharatoi cynlluniau ar y cyd gyda'r awdurdodau y cyfeiriwyd atyn nhw uchod. Tra bod modd dadlau y dylid edrych ar gydweithio gyda Chyngor Caerffili, oherwydd ei fod yn rhannu ffin a materion cysylltiedig â hynny gyda Chyngor Merthyr Tudful, fyddwn ni ddim yn ystyried bod cydweithio'n briodol o gofio lle mae Cyngor Caerffili arni o ran paratoi ei gynllun (h.y. yn y *deposit stage*) ac o gofio nad yw'r argymellion yn argymhell uno â Merthyr.
- 8.4 Fe fu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Penybont-ar-Ogwr fabwysiadu ei Gynllun Datblygu Lleol ym Medi 2013 a does dim gofyn arno i ymgymryd ag adolygiad llawn statudol ohono tan fis Medi 2017. Ers mabwysiadu eu CDLI mae'r Cyngor wedi llunio dau adroddiad monitro blynyddol a ddaeth i'r casgliad bod eu CDLI, at ei gilydd, yn gweithio fel y bwriadwyd iddo a bod dim angen ei adolygu ar hyn o bryd. Gyda bod amserlenni paratoi CDLI Cynghorau Merthyr a Phenybont mor wahanol, nid yw cydweithio rhwng y ddau Gyngor ar Gynllun newydd yn opsiwn ar hyn o bryd.
- 8.5 Bu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf fabwysiadu eu CDLI ym Mawrth 2011 ac felly bu iddo ddechrau ar ei adolygiad llawn, statudol, ym mis Mawrth 2015. Mewn trafodaethau diweddar gyda Chyngor Rhondda Cynon Taf fe welwyd ei fod ar ganol hel y dystiolaeth sydd ei angen i lunio cyfeiriad eu hadolygiad byr neu hir o'u Cynllun Datblygu.

- 8.6 O ystyried yr ansicrwydd, a'r ffaith fod y dystiolaeth sydd yn yr adroddiad hwn yn dangos angen am adolygiad llawn o CDLI Cyngor Merthyr Tudful, fe ystyrir nad yw CDLI ar y cyd yn opsiwn addas ar hyn o bryd. Serch hynny, gyda bod y ddau awdurdod yn debyg o fod yn paratoi fersiwn ddiwygiedig o'u CDLI ar yr un pryd, fe all fod lle i gydweithio wrth baratoi meysydd tystiolaeth allweddol sydd o ddiddordeb i'r ddau gyngor, neu wrth drafod materion trawsffiniol.

9.0 Casgliadau

- 1.1 Mae canfyddiadau'r Adolygiadau Monitro Blynyddol blaenorol ynghyd â'r adolygiad o'r dystiolaeth a'r newidadau cyd-destun yn dangos bod cynnal adolygiad llawn yn rhan angenrheidiol o'r proses o baratoi CDLI newydd.
- 1.2 Nid yw'r Strategaeth Ddatblygu sydd wrth wraidd y CDLI yn cael ei lawn weithredu ar hyn o bryd ac, er bod argoel o welliant yn yr economi, mae ansicrwydd yn parhau ynghylch pa bryd y bydd ei weithredu'n llawn yn bosibl. Rydym o'r farn felly bod angen ailystyried lefel a dosbarthiad datbygiadau yn y Bwrdeistref Sirol wrth weld a ydi'r Strategaeth gyfredol yr un mwyaf priodol i gyflwyno twf rhwng heddiw a 2031.
- 1.3 Tra yr ystyrir bod llawer agwedd arall o'r CDLI yn gweithio'n effeithiol, mae newidiadau yng nghyd-destun a thystiolaeth sylfaenol y Cynllun wedi amlygu angen i adolygu rhai o'i bolisïau a thiroedd dynodedig, ac i ailystyried ei Weledigaeth, ei Brif Amcan a'i Nodau.

Atodiad 1: Crynodeb Perfformiad yr Adroddiad Monitro Blynyddol

Canllaw cyflym i berfformiad polisiâu'r Cyngor, fel a nodwyd yn yr adroddiad monitro blynyddol diweddaraf a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2015

Yn cyrraedd y targedau a/neu'r nodau.	
Y targedau heb eu cyrraedd ond dim pryder ynghylch gweithrediad y polisi na'r nodau.	
Y targedau heb eu cyrraedd, a phryder o'r herwydd ynghylch gweithrediad y polisi a/neu'r nodau.	

SO1: Manteisio ar leoliad strategol Merthyr, gan ddatblygu ymhellach ei statws fel prif ganolfan masnach, gwasanaethau a chyflogaeth ardal Blaenau'r Cymoedd drwy ganoli datblygiadau ym Merthyr Tydfil, y brif dref.				
Dangosyddion craidd a lleol	Targedau Polisi	Yr hyn a gyflawnwyd	Trothwy gweithredu	
<u>Craidd</u> Nifer y tai newydd sydd i'w hadeiladu yn y brif ardal dwf.	Rhwng 1,890 a 2,110 (ffigwr net) o dai i'w cwblhau erbyn Ebrill 2016	1212 o dai wedi eu cwblhau erbyn diwedd Mawrth 2015		C
(Cysylltiedig ag SO6)	O leiaf 3,020 (ffigwr net) o dai i'w cwblhau erbyn Ebrill 2021	--		Amh.
<u>Craidd</u> Gofod (yn ôl mesuriad maint llawr) i'w greu yn y brif ardal dwf.	Rhwng 36,490 a 40,470 m ² (net) erbyn Ebrill 2016	25,494 m ² wedi ei greu erbyn diwedd Mawrth 2015. 206 m ² wedi ei greu yn ystod 2013/14 0 m ² wedi ei greu yn ystod 2014/15	Mwy nag 14,700 m ² neu lai na 1,834 m ² y flwyddyn am ddwy flynedd yn olynol	C C
(Cysylltiedig ag SO7)	O leiaf 110,080 m ² (net) erbyn Ebrill 2021			Amh.

SO2: Canolbwyntio ar lefelau o ddatblygiad sy'n briodol i gymunedau cymoedd llai'r Bwrdeistref Sirol, er mwyn creu llefydd fforddiadwy a dymunol i fyw sydd o fewn cyrraedd rhwydd i wasanaethau a swyddi.

Dangosyddion craidd a lleol	Targedau polisi	Yr hyn a gyflawnwyd	Trothwy gweithredu	
<u>Craidd</u> Nifer y tai newydd i'w hadeiladu yn yr ardal dwf eilaidd	Rhwng 280 a 320 (ffigwr net) i'w cwblhau erbyn Ebrill 2016	281 wedi eu cwblhau erbyn diwedd Mawrth 2015		G
(Cysylltiedig ag SO6)	O leiaf 550 (net) i'w cwblhau erbyn Ebrill 2021	--		Amh.
<u>Craidd</u> Nifer y tai newydd i'w hadeiladu yn yr ardaloedd twf eraill.	Rhwng 200 a 240 (net) i'w cwblhau erbyn Ebrill 2016	43 wedi eu cwblhau erbyn diwedd Mawrth 2015		Y
(Cysylltiedig ag SO6)	O leiaf 245 (net) i'w cwblhau erbyn Ebrill 2021	--		Amh.
<u>Craidd</u> Isadeiledd cymunedol a chymdeithasol newydd (i) Gofal Iechyd Sylfaenol yn Nhreharris (ii) Ysgol Gynradd Gymunedol Ynysowen (Cysylltiedig ag SO8)	I'w gwblhau erbyn diwedd 2010 I'w chwblhau erbyn diwedd 2010	Wedi ei gwblhau Wedi ei chwblhau		G

SO3. Hyrwyddo adfywio ar hen dir diwydiannol addas yn hytrach nag ar gaeau a thir gwyrdd.				
Dangosyddion craidd a lleol	Targedau polisi	Yr hyn a gyflawnwyd	Trothwy gweithredu	
<u>Craidd</u> Y datblygiad i'w ganiatáu ar dir a ddatblygwyd eisoes fel canran o'r holl ddatblygiad caniatadwy (D.S. byddai defnydd preswyl a newid defnydd o un math o ddefnydd anrhigiannol i un arall wedi eu heithrio) (ha)	Y ganran i fod o leiaf 80% dros gyfnod y cynllun	2014/15 – 92%	Llai nag 80% am 2 flynedd yn olynol	G
<u>Craidd</u> Colli tir gwyrdd o ganlyniad i ddatblygiadau amhriodol ar safleoedd sydd ddim wedi eu nodi yn y Cynllun Datblygu Lleol	Colli dim tir	Collwyd dim tir	1 neu 2 ddatblygiad yn derbyn caniatâd dros 2 flynedd, neu 3 datblygiad neu fwy yn yr un flwyddyn	G

SO4. Cefnogi egwyddor cynaliadwyedd drwy strategaeth defnydd tir a thrafnidiaeth ynni effeithlon.				
Dangosyddion craidd a lleol	Targedau polisi	Yr hyn a gyflawnwyd	Trothwy gweithredu	
<u>Lleoli</u> Canran y datblygiad preswyl newydd sydd o fewn 400 metr i arhosfan bysiau a 600m o brif gyfleusterau'n cynnwys siop ac ysgol. (Cysylltiedig ag SO8)	Sicrhau canran lleiafswm o 80% dros gyfnod y cynllun	Roedd 95% o'r datblygiadau preswyl newydd a gafodd ganiatâd cynllunio yn ystod y cyfnod monitro o fewn y pellteroedd a nodwyd oddi wrth cyfleusterau lleol	Llai nag 80% am 2 flynedd yn olynol	G
<u>Lleol</u> Canran y tai annedd newydd i'w cwblhau ar ddwysedd: (1) llai nag 20 tŷ yr hectar (tyh/dph)	Oddeutu 12%	14%		

(2) mwy nag 20 tyh a llai na 25 tyh (3) mwy na 25 tyh a llai na 30 tyh (4) mwy na 30 tyh a llai na 50 tyh (5) mwy na 50 tyh (Cysylltiedig ag SO6)	Oddeutu 13% Oddeutu 25% Oddeutu 48% Oddeutu 2%	0% 66% 16% 4%	Mwy na 25% o'r tai newydd ar ddwysedd o llai na 25 tyh am 2 flynedd yn olynol	G	
<u>Craidd</u> Canran y safleoedd dynodedig i'w datblygu (ha)	Oddeutu 65% o'r tir dynodedig wedi ei ddatblygu erbyn diwedd 2016 Oddeutu 100% o'r tir dynodedig wedi ei ddatblygu erbyn diwedd 2021	Oddeutu 32% o'r tir dynodedig wedi ei ddatblygu erbyn Mawrth 2015. Wedi cyflwyno oddeutu 6.7 ha o'r tir dynodedig yn ystod y cyfnod monitro period (trothwy gweithredu oddeutu 4.5 ha) --	Llai na 25% o ofynion yr CDLI am ddwy flynedd yn olynol	C	G
				Amh.	
<u>Craidd</u> Canran o gyfanswm y datblygiad caniatadwy ar safleoedd dynodedig (ha)	Sicrhau canran o oddeutu 85% dros gyfnod y cynllun	Oddeutu 11% o gyfanswm y datblygiad caniatadwy ar safleoedd dynodedig yn ystod cynfod y monitro	Llai nag 80% am 2 flynedd yn olynol	C	
<u>Lleol</u> Gwelliannau i'r rhwydwaith briffyrdd (1) Ffordd gyswllt Aberfan – Ynysowen (T1)	I'w gwblhau erbyn diwedd 2011	Heb ei gwblhau erbyn 2011. Y gwaith ar ei ganol yn 2014/15	-	M	

(1) Ffordd Pentwyn, Mynwent y Crynwyr (T2)	I'w gwblhau erbyn diwedd 2021		Dim cais cynllunio wedi ei gofrestru erbyn diwedd 2019	Amh.
(2) A472 wrth Fiddlers Elbow (T3)	I'w gwblhau erbyn diwedd 2021		Dim cais cynllunio wedi ei gofrestru erbyn diwedd 2019	Amh.
<u>Lleol</u> Ailfodelu Gorsaf Fysiau Canol Tref Merthyr Tudful	i'w gwblhau erbyn diwedd 2016	Dim cais wedi ei gofrestru erbyn Mawrth 2015	Dim cais cynllunio wedi ei gofrestru erbyn diwedd 2014	M

SO5. Rheoli adnoddau naturiol yn ddoeth gan osgoi difrod parhaol er mwyn eu cynnal a'u gwella ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.					
Dangosyddion craidd a lleol	Targedau polisi	Yr hyn a gyflawnwyd	Trothwy gweithredu		
<u>Craidd</u> Tunelli (metrig/Mt) o ro chwarel caniatadwy dan y Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Gro Chwarel (<i>Regional Technical Statement for Aggregates</i>)	Lleiafswm o 3.3 Mt wedi ei gynhyrchu erbyn diwedd 2011	Oddeutu 2.9 Mt wedi ei gynhyrchu ers 2011	Llai nag 1.1 Mt y flwyddyn am 2 flynedd yn olynol	M	M
	Lleiafswm o 8.8 Mt wedi ei gynhyrchu erbyn diwedd 2016	Oddeutu 0.6 Mt wedi ei gynhyrchu yn 2014		Amh.	
	Lleiafswm o 14.3 Mt wedi ei gynhyrchu erbyn diwedd 2021 (D.S. y targedau'n dargedau cynnyrch ar y cyd â CBS Caerffili)				
<u>Craidd</u> Tomen gronfa gro chwarel	Tomen gronfa digonol ar gyfer o leiaf 10 mlynedd o ddefnydd, drwy gydol cyfnod y cynllun	Y domen gronfa gyfredol yn ddigonol ar gyfer o leiaf 10 mlynedd o ddefnydd yn ystod cyfnod y cynllun	Maint y domen gronfa'n llai na'r maint targed	G	

<u>Craidd</u> Y datblygu caniatadwy (yng nghategori datblygiad TAN 15 paragraff 5.1) mewn ardaloedd gorlifdir C1 ac C2 sydd ddim yn bodloni pob prawf TAN 15 (paragraff 6.2 i-v)	Dim datblygu'n cael ei ganiatáu	Dim datblygu wedi ei ganiatáu mewn ardaloedd gorlifdir C1 neu C2 sydd ddim yn bodloni pob prawf TAN 15	1 neu fwy o ddatblygiadau'n cael eu caniatáu	G
<u>Lleol</u> Datblygiadau'n cynnwys systemau traenio trefol cynaliadwy (<i>sustainable urban drainage systems - SuDS</i>)	Pob datblygiad i gynnwys <i>SuDS</i> lle'n briodol (D.S. Hyn yn eithrio datblygiadau sydd ddim yn cynnwys <i>SuDS</i> am resymau amgylcheddol neu ymarferol)	Pob datblygiad a gafodd ganiatâd cynllunio yn ystod y cyfnod monitro wedi cynnwys <i>SuDS</i> lle'n briodol	1 neu 2 ddatblygiad am 2 flynedd yn olynol yn derbyn caniatâd heb amod <i>SuDS</i> , neu, 3 neu fwy o ddatblygiadau'n derbyn caniatâd heb amod <i>SuDS</i> o fewn yr un flwyddyn	G
<u>Craidd</u> Nifer y cyfleusterau trin gwastraff trwyddedig sydd i'w caniatáu	Rhwng 1.1 a 3.2 hectar o dir cyflogaeth B2 i'w ddatblygu'n gyfleusterau trin gwastraff. (D.S. y cyfleusterau newydd i'w cyflwyno ar y cyd â Chyngor Rhondda Cynon Taf) Safle ddinesig newydd i'w greu yn ne'r Bwrdeistref erbyn diwedd 2016	Dwy safle trin gwastraff newydd wedi derbyn caniatâd cynllunio yn ystod y cyfnod monitro	Dim cyfleusterau newydd yn cael eu caniatáu erbyn diwedd 2012 Dim cais cynllunio wedi ei gofrestru erbyn diwedd 2014	G
<u>Lleol</u> Capasiti tirlenwi Trecatti	Sicrhau bod capasiti mwy na'r angen ar gael yn ystod cyfnod y cynllun	Y deunydd tirlenwi'n llai na'r uchafswm yn 2013	Y deunydd tirlenwi yn cyrraedd yr uchafswm o 625,000 tonnall y flwyddyn am 3 blynedd yn olynol	G

SO6: Darparu tai o wahanol fathau a maint, yn cynnwys tai fforddiadwy a thai ar gyfer pobl ag anghenion arbennig, sy'n cefnogi anghenion y gymuned leol, yn denu trigolion newydd i'r ardal, ac yn creu cymunedau amrywiol a chymdeithasol gynhwysol.

Dangosyddion craidd a lleol	Targedau polisi	Yr hyn a gyflawnwyd	Trothwy gweithredu	
<u>Craidd</u> Cronfa dir ar gyfer tai	Bod â digon o dir i ateb gofynion o leiaf 5 mlynedd (ha)	Digon ar gyfer 2.8 mlynedd	Llai na digon am 5 mlynedd dros gyfnod o 1 blwyddyn	C
<u>Craidd</u> Nifer y tai o bob math sydd i'w hadeiladu	Rhwng 2,400 a 2,720 (nifer net) i'w cwblhau erbyn Ebrill 2016 O leiaf 3,800 (nifer net) i'w cwblhau erbyn Ebrill 2021	1536 wedi eu cwblhau erbyn diwedd Mawrth 2015 --	20% yn llai neu'n fwy na chyfradd adeiladu'r CDLI am ddwy flynedd yn olynol	C Amh.
<u>Craidd</u> Nifer y tai newydd o'r math 'marchnad cyffedino' sydd i'w hadeiladu	Rhwng 2,110 a 2,390 (net) i'w cwblhau erbyn Ebrill 2016 O leiaf 3,330 (net) i'w cwblhau erbyn Ebrill 2021	1249 wedi eu cwblhau erbyn diwedd Mawrth 2015 75 wedi eu cwblhau yn ystod 2014/2015 --	20% yn llai neu'n fwy na chyfradd strategaeth adeiladu'r CDLI am ddwy flynedd yn olynol	C Amh.
<u>Craidd</u> Nifer y tai fforddiadwy sydd i'w hadeiladu	Rhwng 225 a 255 (net) i'w cwblhau erbyn Ebrill 2016 O leiaf 350 (net) i'w cwblhau erbyn Ebrill 2021	287 wedi eu cwblhau erbyn diwedd Mawrth 2015 26 wedi eu cwblhau yn ystod 2014/2015 --	20% yn llai neu'n fwy na chyfradd strategaeth adeiladu'r CDLI am ddwy flynedd yn olynol	M Amh.

<u>Lleol</u> Nifer y tai fforddiadwy sydd i'w caniatáu fel rhan o amod cynllunio	Oddeutu 130 erbyn Ebrill 2016	39 o dai erbyn diwedd Mawrth 2015 5% wedi eu cwblhau yn yr ardaloedd 10%	Ardaloedd 10%: cwblhau llai na 7.5% neu fwy na 12.5% Ardaloedd 5%: cwblhau llai na 2.5% neu fwy na 7.5%	M	M
	Oddeutu 240 erbyn Ebrill 2021	5% wedi eu cwblhau yn yr ardaloedd 5%		Amh.	
<u>Lleol</u> Nifer y tai fforddiadwy sydd i'w trefnu fel rhan o'r polisi eithriadau tai fforddiadwy	Oddeutu 10 erbyn Ebrill 2016	Dim cais cynllunio wedi dod i law	Dim cais cynllunio'n dod i law cyn diwedd 2014	C	
	Oddeutu 20 erbyn Ebrill 2021	--		Amh.	
<u>Lleol</u> Pris cyfartalog tŷ (Gwaelodlin: Oddeutu £86,900 yn 2010, wedi ei addasu'n unol â data'r Gofrestrfa Dir i £73,153)	--	£63,152	Newid o +/- 10% o'r waelodlin	M	
<u>Lleol</u> Incwm cyfartalog (cyflog wythnosol gros) (Gwaelodlin: Oddeutu £380 yn 2009, wedi ei addasu'n unol â data NOMIS i £392)	--	£434.50 (+11%)	Newid o +/- 10% o'r waelodlin	M	
<u>Lleol</u> Canran tai gwag y stoc dai gyfredol (Gwaelodlin: 6% yn 2010)	--	4.5%	Y canran yn codi am 1 flwyddyn neu'n aros yr un fath am 2 flynedd yn olynol	G	
<u>Lleol</u> Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Ychwanegol (SPG) ar gyfer Tai	Erbyn diwedd 2011	Y CCY wedi eu mabwysiadu ym Mawrth 2012		G	

Fforddiadwy				
Canran y ceisiadau cynllunio perthnasol sy'n cydymffurfio â'r CCY (SPG)	100% (ar ôl mabwysiadu'r CCY)	Pob cais yn cydymffurfio		

SO7. Creu economi cadarnach a mwy amrywiol, gwarchod swyddi sydd eisoes yn bod, a chreu ystod o gyfleoedd cyflogaeth newydd mewn modd cynaliadawy.

Dangosyddion craidd a lleol	Targedau polisi	Yr hyn a gyflwynwyd	Trothwy gweithredu		
<u>Craidd</u> Darparu gofod gwaith B1 newydd	Rhwng 28,500 a 30,790 metr sgwar (net) o ofod gwaith erbyn Ebrill 2016	10,661 m ² wedi ei ddarparu erbyn diwedd Mawrth 2015 57 m ² wedi ei ddarparu yn 2013/14	Mwy na 7,120 m ² y flwyddyn neu lai nag 890 m ² y flwyddyn am 2 flynedd yn olynol	C	C
	Darparu o leiaf 53,400 m ² (net) o ofod gwaith erbyn Ebrill 2021	0 m ² wedi ei ddarparu yn 2014/15		Amh.	
<u>Craidd</u> Y gofod gwaith B2/B8 sydd i'w ddarparu	Rhwng 7,920 a 9,680 m ² (net) o ofod gwaith i'w ddarparu erbyn Ebrill 2016	15,601 m ² wedi ei ddarparu erbyn diwedd Mawrth 2015 1,330 m ² wedi ei ddarparu yn 2013/14	Mwy na 7,540 m ² neu lai na 940 m ² y flwyddyn am 2 flynedd yn olynol	M	G
	O leiaf 56,500 m ² (net) o ofod gwaith i'w ddarparu erbyn Ebrill 2021	0 m ² wedi ei ddarparu yn 2014/15		Amh.	
<u>Craidd</u> Lleiafswm (net) y swyddi ychwanegol sydd i'w ddarparu	Rhwng 1,800 a 1,980 o swyddi i'w ddarparu erbyn Ebrill 2016	1318 wedi eu ddarparu erbyn diwedd Mawrth 2015 220 o swyddi wedi	Mwy na 592 neu lai na 74 swydd y flwyddyn am 2 flynedd yn olynol	G	G

	O leiaf 4,440 i'w darparu erbyn Ebrill 2021	eu darparu erbyn 2014/15		Amh.	
<u>Lleol</u> Datblygiadau'n derbyn caniatâd cynllunio sy'n arwain at golli tir a glustnodwyd ar gyfer cyflogaeth ar safleoedd cyflogaeth sydd wedi eu gwarchod dan Bolisi AS24	Dim tir ar gyfer cyflogaeth i'w golli ar safleoedd cyflogaeth wedi eu gwarchod, ac eithrio lle mae hynny wedi ei gyfiawnhau gan bolisi	Dim tir cyflogeth wedi ei golli'n ddi-achos	1 neu 2 datblygiad yn derbyn caniatâd cynllunio am 2 flynedd yn olynol, neu, 3 neu fwy o ddatblygiadau'n derbyn caniatâd o fewn yr un flwyddyn	G	
<u>Lleol</u> Canran y bobl economaidd weithredol sydd mewn swydd (Gwaelodlin: 64% yn 2009)	Oddeutu 74% erbyn diwedd 2016	68.2% yn 2014/15 (+3.3%)	Lleihad o 5% neu fethiant i gynyddu'r ganran am 2 flynedd yn olynol	M	G
	Oddeutu 80% erbyn diwedd 2021			Amh.	
<u>Lleol</u> Canran adeiladau gwag y stoc gyfredol o adeiladau cyflogaeth (Ffigurau gwaelodlin 2009: B1 = 5.6%; B2/B8 = 9.7%)	Cadw canran wag y stoc gyfredol rhwng 5 a 10%	17%	+ neu - 2.5% y tu hwnt i'r ystod 5-10% am 2 flynedd yn olynol	M	

SO8. Hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a sicrhau cyfartaledd cyfle drwy leihau'r angen i deithio, a darparu - drwy ddulliau cynaliadwy - gwell mynediad i gyfleoedd cyflogaeth, cyfleusterau cymunedol a gwasanaethau.					
Dangosyddion craidd a lleol	Targedau polisi	Yr hyn a gyflawnwyd	Trothwy gweithredu		
<u>Lleol</u> Nifer y cyfleusterau cymunedol sydd i'w colli drwy newid defnydd	Dim cyfleusterau cymunedol hyfyw i'w colli lle bo galw lleol ar eu cyfer (ac eithrio lle mae polisi yn ei gyfiawnhau)	Dim cyfleuster cymunedol wedi ei golli'n ddi-achos	1 neu 2 cyfleuster cymunedol yn cael eu colli am 2 flynedd yn olynol, neu, 3 neu fwy'n cael eu colli yn yr un flwyddyn	G	

<u>Lleol</u> Nifer y gofynion cynllunio sydd i'w sicrhau ar ddatblygiadau tai ar dir dynodedig	Sicrhau cyfraniad gan ddatblygwyr ar 33 (67%) o'r datblygiadau sydd ar dir dynodedig	Wedi sicrhau cyfraniad ar bob un datblygiad ar dir dynodedig	1 neu 2 safle yn methu â sicrhau gofynion am 2 flynedd yn olynol, neu, 3 neu fwy o safleoedd yn methu â gwneudo fewn yr un flwyddyn	G
Canran y ceisiadau cynllunio perthnasol sy'n cydymffurfio â'r CCY (SPG)	100% (ar ôl mabwysiadu'r CCY)	Pob cais yn cydymffurfio	-	G

SO9. Hyrwyddo iechyd a lles y bobl drwy ddarparu cyfleoedd a gweithgareddau hamdden amrywiol y mae'n hawdd cael mynediad iddyn nhw.				
Dangosyddion craidd a lleol	Targedau polisi	Yr hyn a gyflawnwyd	Trothwy gweithredu	
<u>Lleol</u> Y gofod agored cyhoeddus, yn cynnwys llefydd chwarae a mannau hamddena anffurfiol, sydd i'w golli i ddatblygiadau (ha) sydd ddim wedi ei nodi yn y cynllun datblygu	Colli dim tir a fyddai'n lleihau'r gofod i'r graddau na fyddai modd darparu ar gyfer angen sydd wedi ei adnabod	Colled o 0.05 ha	-	G
<u>Lleol</u> Datblygiadau hamdden newydd ii) Parc Taf Bargoed	I'w gwblhau erbyn diwedd 2016	Y datblygiad wedi ei gwblhau	Dim cais cynllunio erbyn diwedd 2014	G

SO10. Sicrhau bod datblygiadau newydd a chreu cymunedau diogelach wedi eu cynllunio'n dda.				
SO12. Cyfrannu at leihau effaith newid hinsawdd drwy leihau allyriadau carbon deuocsid datblygiadau newydd.				
Dangosyddion craidd a lleol	Targedau polisi	Yr hyn a gyflawnwyd	Trothwy gweithredu	
<u>Lleol</u> Canran y cynlluniau perthnasol sydd i gynnwys egwyddorion "cynllun sicr" ("secured by design")	100% o'r ceisiadau cynllunio mawr	Pob cais a ddrbyniodd ganiatâd cynllunio'n ymgorffori egwyddorion "cynllun sicr"	-	G

<u>Lleol</u> Paratoi a mabwysiadu CCY (SPG) Cynllun Cynaliadwy	Erbyn diwedd 2012	CCY wedi eu mabwysiadu yng Ngorffennaf 2013	-	G
<u>Lleol</u> Canran y ceisiadau cynllunio sy'n cydymffurfio â'r CCY (SPG) cynllunio cynaliadwy	100% (ar ôl mabwysiadu'r CCY)	Pob cais perthnasol yn cydymffurfio â'r CCY	-	G

SO11. Sicrhau parhad y warchodaeth a'r gwella sydd wedi bod ar amgylchedd naturiol, diwylliannol, adeiledig a hanesyddol y Bwrdeistref Sirol.				
Dangosyddion craidd a lleol	Targedau polisi	Yr hyn a gyflawnwyd	Trothwy gweithredu	
<u>Lleol</u> Datblygiadau'n derbyn caniatâd cynllunio sydd ddim yn cadw neu'n gwella henebion rhestredig, parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig, adeiladau rhestredig neu ardaloedd cadwraeth	Bod dim un datblygiad i'w ganiatáu a fyddai'n methu â chadw neu wella nodweddion treftadaeth	Dim caniatâd cynllunio wedi ei roi i ddatblygiadau a fyddai'n methu â chadw neu wella nodweddion treftadaeth	1 neu 2 ddatblygiad yn methu â chadw neu wella nodweddion treftadaeth am 2 flynedd yn olynol, neu, 3 neu fwy o ddatblygiadau o'r fath yn yr un flwyddyn	G
<u>Lleol</u> Datblygiadau'n derbyn caniatâd cynllunio sy'n niweidio gwerth cadwriaethol Safleoedd o Bwysigrwydd parthed Safleoedd o Ddiddordeb Cadwraeth Natur (SINCs) neu Warchodfa Natur Leol	Bod dim un datblygiad a fyddai'n achosi niwed i werth cadwriaethol Safleoedd o Ddiddordeb Cadwraeth Natur neu Warchodfa Natur Leol yn derbyn caniatâd cynllunio	Dim un datblygiad a fyddai'n achosi niwed i werth cadwriaethol Safleoedd o Ddiddordeb Cadwraeth Natur neu Warchodfa Natur Leol wedi derbyn caniatâd cynllunio	1 neu 2 ddatblygiad fyddai'n achosi niwed yn derbyn caniatâd am 2 flynedd neu fwy, neu, 3 neu fwy o ddatblygiadau o'r fath yn yr yn flwyddyn	G

<u>Lleol</u> Datblygiadau'n derbyn caniatâd cynllunio fyddai'n achosi niwed i Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI)	Bod dim un datblygiad a fyddai'n achosi niwed i Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn derbyn caniatâd cynllunio	Dim un datblygiad a fyddai'n achosi niwed i Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig wedi derbyn caniatâd cynllunio	1 neu fwy o ddatblygiadau a fyddai'n achosi niwed i Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig	G
---	--	--	---	----------

Atodiad 2: Datblygiadau dan y Cynllun Datblygu Lleol

Rhif safle	Enw'r safle	Nifer yr unedau	Statws
H1	Sweetwater Park, Trefechan	26	Y gwaith ar ei ganol - y cam olaf wedi ei addasu i gynnwys 35 uned. Datblygiad i'w gwblhau erbyn 2017.
H2	Trevor Close, Pant	28	Gwaith safle'r datblygiad 28 uned heb gychwyn eto. Cais wedi ei dderbyn yn ddiweddar ar gyfer 23 uned ychwanegol ar dir cyfagos.
H3	Beacon Heights	153	Y gwaith ar ei ganol - datblygu llai dwys wedi arwain at godi cyfanswm o 135 o unedau ar y safle. Cam olaf caniatadwy o 15 uned heb ei gychwyn eto.
H4	Bryngwyn Farm, Ffordd Abertawe	75	Wedi ei gwblhau 2014/15
H5	Wrth Siop Twyn Carmel	11	Wedi ei gwblhau 2009/10
H6	Clwyd y Fagwr, Ffordd Abertawe	50	Dim cais cynllunio wedi dod i law.
H7	Cyfarthfa Mews, Ffordd Abertawe	47	Y gwaith ar ei ganol - i'w gwblhau yn 2017.
H8	Fflatiau Gellideg	53	Safle â chaniatâd llawn ar gyfer swyddfeydd cymdeithas dai ac adnewyddu'r fflatiau sydd yno eisoes. Mwy o dir ar gael ar gyfer datblygu tai preswyl, ond ar raddfa lai, â 26 uned wedi eu rhagweld.
H9	I'r de o Castle Park, Twyn Carmel	160	Dim cais cynllunio wedi dod i law.
H11	Winchfawr	30	Un uned wedi ei gwblhau. Dim cais wedi dod i law ar gyfer gweddill y safle.
H12	Brecon View Park, Heolgerrig	150	Wedi ei gwblhau 2010/11
H13	Ffordd Cwmglo, Heolgerrig	50	Wedi ei gwblhau 2013/14
H14	Brondeg, Heolgerrig	70	Caniatâd amlinellol ar ran o'r safle.
H15	Llwyfandir Georgetown Uchaf	70	Dim cais cynllunio wedi dod i law.
H16	Llwyfandir Georgetown Isaf	131	Wedi ei gwblhau 2010/11
H17	Hen Fragdy Vulcan, Ffordd Aberhonddu	20	Datblygiad 100% tai fforddiadwy - wedi ei gwblhau 2011/12
H18	Tŷ Gwaelod y Garth	20	Y gwaith ar ei ganol - i'w gwblhau erbyn 2016/17.

H19	Goitre Lane, Gurnos	190	Dim cais cynllunio wedi dod i law.
H20	Ysbyty St Tudful	60	Y safle wedi ei glirio. Dim cais cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl wedi dod i law.
H21	Cronfa Ddŵr Penydarren	33	Datblygiad 100% tai fforddiadwy - wedi ei gwblhau 2008/09
H22	Y tu ôl i Haydn Terrace, Penydarren	70	Dim cais cynllunio wedi dod i law.
H23	Prosiect Heartland, Dowlais	450	Safle â chaniatâd amlinellol sy'n dod i ben ym Medi 2017.
H24	Fflatiau Dowlais	38	Datblygiad 100% cartrefi fforddiadwy - wedi ei gwblhau 2008/09.
H25	Goatmill Road	160	Dim cais cynllunio wedi dod i law.
H26	I'r gogledd o Bradley Gardens, Penyard	110	Dim cais cynllunio wedi dod i law.
H27	Queens Exchange, Penyard	260	Wedi ei gwblhau 2012/13
H28	Safle hen ysgol gynradd Twyn yr Odyn	24	Datblygiad 100% tai fforddiadwy - wedi ei gwblhau 2009/10.
H29	Twyn yr Odyn	180	Dim cais cynllunio wedi dod i law.
H30	Safle hen ysbyty'r Maerdy	125	Y gwaith ar ei ganol – y cam cyntaf (69 uned) i'w gwblhau erbyn diwedd 2017.
H31	Pentref Hamdden Rhydycar	24	Safle â chaniatâd amlinellol yn 2015.
H32	The Greenie, Penydarren	60	Dim cais cynllunio wedi dod i law.
H33	Gethin Tip, Abercanaid	150	Dim cais cynllunio wedi dod i law.
H34	Rocky Road, Penydarren	19	Wedi ei gwblhau 2015/16
H35	Safle'r hen glwb rygbi, Ynysfach	13	Wedi ei gwblhau 2010/11
H36	P & R Motors, Pentrebach	24	Cais amlinellol dan ystyriaeth ar hyn o bryd.
H37	Mount Pleasant, Troedryhiw	10	Dim cais cynllunio wedi dod i law.
H38	Y tu ôl i Oakfield Street, Aberfan	50	Dim cais cynllunio wedi dod i law.
H39	Prosiect Riverside	150	Safle â chaniatâd amlinellol – ar werth ar hyn o bryd.
H40	Grays Place, Ynysowen	10	Dim cais cynllunio wedi dod i law.
H41	Y tu ôl i Pleasant View, Beddllwynog	10	Dim cais cynllunio wedi dod i law.
H42	Cwmfelin, Beddllwynog	18	Safle â chaniatâd cynllunio sy'n dod i ben ym mis Ebrill 2016.
H43	I'r gogledd o Ffordd Twynygarreg, Treharris	25	Y gwaith ar ei ganol – y cam olaf (9 uned) i gychwyn haf 2016.
H44	Oaklands, Treharris	85	Dim cais cynllunio wedi dod i law.
H45	Cilhaul, Treharris	50	Dim cais cynllunio wedi dod i law.
H46	Millbrook, Mynwent y Crynwyr	54	Wedi ei gwblhau 2008/09

H47	Tŷ Llwyd Parc, Mynwent y Crynwyr	20	Wedi ei gwblhau 2010/11
H48	Ger Shingrig Estate, Trelewis	300	Y gwaith ar ei ganol - oddeutu 130 o unedau i'w cwblhau erbyn Ebrill 2016.
H49	Maen Ganol, Trelewis	30	Dim cais cynllunio wedi dod i law.
H50	Rahbers Corner, Treharris	18	Datblygiad 100% tai fforddiadwy wedi ei gwblhau 2010/11.

Datblygiadau ar gyfer cyflogaeth

Rhif safle	Enw'r safle	Arwynebedd y safle (hectar)	Statws
E4	Goatmill Road	9.98	Dim cais cynllunio wedi dod i law.
E5	Ffos y Fran	11.2	Dim cais cynllunio wedi dod i law.
E6	Rhydycar Business Park	4.65	Y rhan fwyaf wedi ei gwblhau. Oddeutu 1.77 hectar o dir ar ôl.
E8	Maes Parcio, Hoovers		Dim cais cynllunio wedi dod i law.

Gwelliannau i'r rhwydwaith drafnidiaeth

Rhif safle	Enw'r safle	Statws
T1	Ffordd gyswllt Aberfan - Ynysowen -	Wedi ei gwblhau - Rhagfyr 2015
T2	Ffordd Pentwyn, Mynwent y Crynwyr -	Dim cais cynllunio wedi ei dderbyn.
T3	A472, Fiddlers Elbow -	Dim cais cynllunio wedi ei dderbyn.
-	Ailfodelu gorsaf fysiau canol y dref	Cais cynllunio wedi dod i law ar gyfer symud gorsaf fysiau canol y dref i Swan Street.

Cyfleusterau dysgu gydol oes

Rhif safle	Enw'r safle	Statws
LL1	Coleg Merthyr	Gwaith wedi ei gwblhau - Medi 2013
LL2	Ysgol Santes Tudful, Penyard	Wedi ei chwblhau - Medi 2010
LL3	Ysgol Gymunedol Ynysowen	Wedi ei chwblhau - Medi 2010

Parc Rhanbarthol y Cymoedd

Rhif safle	Enw'r safle	Statws
-	Parc Cyfarthfa	Amrywiol brosiectau wedi eu cwblhau yn y ddau barc i wella eu darpariaeth hamdden a thwristiaeth.
-	Parc Taf Bargoed	

Datblygiad hamdden newydd

Rhif safle	Enw'r safle	Statws
L1	Pentref Hamdden Rhydycar	Wedi ei gwblhau - a'i agor gyntaf yn 2008

Manwerthu

Rhif safle	Enw'r safle	Statws
R1	Gorsaf fysiau canol dref Merthyr Tudful	Dim cais cynllunio wedi dod i law. Bydd y safle ar gael ar ôl cwblhau'r orsaf fysiau newydd yn Swan Street.

Cymleusterau Iechyd Cymunedol

Rhif safle	Enw'r safle	Statws
CH1	Parc Iechyd Keir Hardie, Georgetown	Wedi ei gwblhau - Medi 2012
CH2	Canolfan Gofal Iechyd Sylfaenol, Treharris	Wedi ei gwblhau – 2009

Atodiad 3: Crynodeb o effeithiolrwydd y polisiau ac o unrhyw angen i'w newid

Polisiau Bwrdeistref gyfan		Sylw
Polisi BW1	Y Strategaeth Ddatblygu ar gyfer y Prif Ardal Dwf	Ei hadolygu wrth ailystyried y strategaeth ddatblygu
Polisi BW2	Y Strategaeth Ddatblygu ar gyfer yr Ardal Dwf Eilaidd	Ei hadolygu wrth ailystyried y strategaeth ddatblygu
Polisi BW3	Y Strategaeth Ddatblygu ar gyfer Ardaloedd Twf Eraill	Ei hadolygu wrth ailystyried y strategaeth ddatblygu
Polisi BW4	Ffiniau aneddiadau / cyfyngiadau lleoliad	Yn gweithredu'n effeithiol - efallai angen mân addasiadau
Polisi BW5	Treftadaeth Naturiol	Yn gweithredu'n effeithiol - efallai angen mân addasiadau
Polisi BW6	Treflun a threftadaeth adeiledig	Yn gweithredu'n effeithiol - efallai angen mân addasiadau
Polisi BW7	Cynllunio a chreu llefydd cynaliadwy	Yn gweithredu'n effeithiol - efallai angen mân addasiadau
Polisi BW8	Datblygu a'r amgylchedd ddŵr	Yn gweithredu'n effeithiol - efallai angen mân addasiadau

Polisi BW10	Gwarchodaeth mwynau	Yn gweithredu'n effeithiol - angen mân addasiadau
Polisi BW11	Cynigion ar gyfer trafndiaeth, beicio a cherddwyr	Yn gweithredu'n effeithiol - angen mân addasiadau
Polisi BW12	Cynigion datblygu a chludiant	Yn gweithredu'n effeithiol - efallai angen mân addasiadau
Polisi BW13	Rheoli twf datblygiadau tai	Ei adolygu wrth ailystyried y strategaeth ddatblygu
Polisi BW14	Rheoli twf cyflogaeth	Ei adolygu wrth ailystyried y strategaeth ddatblygu
Polisi BW15	Cyfleusterau cymunedol	Yn gweithredu'n effeithiol - efallai angen mân addasiadau
Polisi BW16	Gwarchod/gwella'r rhwydwaith cyfleusterau hamdden	Yn gweithredu'n effeithiol - efallai angen mân addasiadau
Polisi BW17	Gwella isadeiledd cymunedol	Yn gweithredu'n effeithiol - angen mân addasiadau
Polisi BW18	Tir wedi ei lygru	Yn gweithredu'n effeithiol - efallai angen mân addasiadau
Polisi BW19	Targed tai fforddiadwy	Ei adolygu yn sgîl asesiadau LHMA a hyfywedd diweddar

Polisiâu Ardal-benodol		Sylw
Polisi AS1	Tai yn y Prif Ardal Dwf	I'w adolygu – rhai o'r tai wedi eu gosod, angen adolygaid o safleoedd heb eu datblygu
Polisi AS2	Tai yn yr Ardal Dwf Eilaidd	I'w adolygu – rhai o'r tai wedi eu gosod, angen adolygaid o safleoedd heb eu datblygu
Polisi AS3	Tai yn yr Ardaloedd Twf Eraill	I'w adolygu – angen adolygaid o safleoedd heb eu datblygu
Polisi AS4	Tirlun hanesyddol	Yn gweithredu'n effeithiol - efallai angen mân addasiadau
Polisi AS5	Parthau gwyrdd	Yn gweithredu'n effeithiol - angen mân addasiadau
Polisi AS6	Dynodi ardaloedd cadwraeth natur lleol	Yn gweithredu'n effeithiol - angen mân addasiadau
Polisi AS7	Cyfleusterau trin gwastraff - lleoliadau dewisol	I'w adolygu yn sgîl newidadau polisi cenedlaethol
Polisi AS8	Safle newydd ar gyfer amwynder dinesig	I'w ddileu – dim o'i angen bellach
Polisi AS9	Gwelliannau strategol priffyrdd	Yn gweithredu'n effeithiol - efallai angen mân addasiadau
Polisi AS10	Gwelliannau i'r rhwydwaith priffyrdd craidd	I'w adolygu – y gwaith datblygu wedi ei gwblhau
Polisi AS11	Trafnidiaeth gyhoeddus – y rheilffyrdd	Yn gweithredu'n effeithiol - efallai angen mân addasiadau
Polisi AS12	Trafnidiaeth gyhoeddus - ffyrdd	I'w adolygu – y brif orsaf fysiau i'w ail-leoli yn Swan Street.
Polisi AS13	Cyfleusterau dysgu gydol oes	I'w ddileu – y gwaith datblygu wedi ei gwblhau
Polisi AS14	Darparu unedau gwaith cyflogedig yn y Prif Ardal Dwf	I'w adolygu – ambell uned wedi ei sefydlu, angen adolygiad o safleoedd heb eu datblygu
Polisi AS15	Cyfranwyr allweddol i Barc Rhanbarthol y Cymoedd	Yn gweithredu'n effeithiol - efallai angen mân addasiadau

Polisi AS16	Datblygiad hamdden newydd	I'w ddileu – y datblygiad wedi ei gwblhau
Polisi AS17	Lle chwarae/chwaraeon newydd	I'w adolygu – y datblygiad wedi ei gwblhau
Polisi AS18	Trefniadaeth manwerthu	Yn gweithredu'n effeithiol - efallai angen mân addasiadau
Polisi AS19	Canol Tref Merthyr Tudful	Yn gweithredu'n effeithiol - efallai angen mân addasiadau
Polisi AS20	Dyrannu safleoedd manwerthu	I'w adolygu wrth ddiweddarau'r gofynion manwerthu
Polisi AS21	Cyfleusterau iechyd cymunedol	I'w ddileu – y datblygiad wedi ei gwblhau
Polisi AS22	Cyfraniadau tuag at dai fforddiadwy	I'w adolygu yn sgîl asesiadau LHMA a hyfywedd diweddar
Polisi AS24	Gwarchod safleoedd cyflogaeth	Yn gweithredu'n effeithiol - efallai angen mân addasiadau

Polisiâu Pwnc-penodol		Sylw
Polisi TB5	Tai i bobl ag anghenion arbennig	Yn gweithredu'n effeithiol - efallai angen mân addasiadau
Polisi TB6	Carafanau sefydlog, tai preswyl symudol a llety sipsiwn a theithwyr	Yn gweithredu'n effeithiol - efallai angen mân addasiadau
Polisi TB7	Ynni adnewyddol	I'w adolygu yn sgîl newid polisi cenedlaethol
Polisi TB8	Cynigion datblygu mwynau	Yn gweithredu'n effeithiol - efallai angen mân addasiadau

Polisi TB9	Parthau rhagod ar gyfer datblygiadau mwynau	Yn gweithredu'n effeithiol - angen mân addasiadau
Polisi TB10	Cyfleusterau trin gwastraff	Yn gweithredu'n effeithiol - efallai angen mân addasiadau
Polisi TB11	Mynediad, parcio a mynediad i gyfleusterau lleol	Yn gweithredu'n effeithiol - efallai angen mân addasiadau
Polisi TB12	Trafnidiaeth cludiant nwyddau	Yn gweithredu'n effeithiol - efallai angen mân addasiadau
Polisi TB13	Safleoedd eithriad ar gyfer tai fforddiadwy yng ngefn gwlad	I'w adolygu yn sgîl asesiadau LHMA a hyfywedd diweddar

*Sylwer nad yw'r asesiad uchod yn un diffiniadol, a bod angen - fel rhan o broses adolygu'r cynllun - rhoi ystyriaeth pellach i fater addasu polisiâu lleol, yn cynnwys ystyriaeth o'u hangen ochr yn ochr â'r polisiâu datblygiad rheolaethol cenedlaethol sydd i'w cael yn Planning Policy Wales (Cyfrol 8, Ionawr 2016).



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council